

# Cymru ac Ofcom

**Adroddiad gan Grŵp Ymgynghorol i'r  
Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg,  
Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**27 Mawrth 2003**

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	t. 2
Cylch Gwaith ac Aelodaeth	t. 4
1. Cefndir	t. 5
2. Bwriadau'r Llywodraeth	t. 9
3. Swyddogaethau Ofcom yn y Gwledydd	t.15
4. Materion sy'n wynebu Cymru ac Ofcom	t.24

## **Cymru ac Ofcom – Crynodeb gweithredol**

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gais Jenny Randerson AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad yn ystyried rôl a swyddogaethau posibl Ofcom yn y dyfodol mewn perthynas â Chymru, ac y mae'n darparu asesiad o faterion sydd o bwysigrwydd i Gymru ac Ofcom yng ngoleuni diwygio'r amgylchedd reoleiddio ar gyfer darlledu a thelathrebu. Amlinellir cylch gwaith ac aelodaeth y Grŵp Ymgynghori ar dudalen 4.

Mae pennod gyntaf yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad o'r ystyriaethau presennol mewn perthynas â darlledu a thelathrebu yng Nghymru. Mae'r bennod yn amlinellu trefniadau diwylliant gwleidyddol a llywodraethol Cymru, ac yn tynnu sylw at ei hunaniaeth dwyieithog unigryw a'i chyd-destun diwylliannol gwahanol. Mae patrymau defnyddio'r cyfryngau yn wahanol i'r rhai hynny yn Lloegr a'r Alban, fel ag y mae rhai agweddau ar gynnwys y darlledu. Tynnir sylw at y problemau neilltuol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth darlledu yng Nghymru o ganlyniad i ddaearyddiaeth leol a'r modd y gwasgarwyd y boblogaeth, a'r ystyriaethau sy'n deillio o hyn o ran atebolrwydd democrataidd. Mae yno hefyd ystyriaethau neilltuol i Gymru o ran isadeiledd telathrebu, a'r modd y lledaenir darlledu digidol a thelathrebu ddatblygedig.

Mae'r ail bennod yn asesu'r graddau y mae bwriadau Llywodraeth y DU mewn perthynas â materion Gwledydd a Rhanbarthau, fel y'u cynhwyswyd yn y Datganiad Polisi ar y Mesur Cyfathrebu drafft, yn cael eu hadlewyrchu yn y Mesur ei hun. Tynnir sylw penodol at y ffaith nad yw'r Mesur yn gosod unrhyw ddyletswydd ar Ofcom mewn perthynas ag ymgynghori ynglŷn â phenodiadau, nac ar ddelio'n arbennig â materion penodol i wlad fel rhan o'i adroddiad ffeithiol ac ystadegol blynyddol. Nid yw'r Mesur chwaith yn gosod dyletswydd penodol ar Ofcom i sicrhau bod ei weithdrefnau ymgynghorol yn cwmpasu trefniadau penodol i gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, na'r angen i gynnal cyfarfodydd mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mae'r Grŵp yn nodi fod nifer o'r materion nad ydynt yn ymddangos ar wyneb y Mesur i'w trafod mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom a'r Ysgrifenyddion Gwladol tiriogaethol a/neu'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r drydedd bennod yn amlinellu'r trefniadau atebolrwydd presennol i ddarlledwyr a rheoleiddio darlledu a thelathrebu yng Nghymru. Wrth sefydlu Swyddfa Genedlaethol Ofcom Cymru a threfniadau gwaith yng Nghymru, mae'r Grŵp yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i Ofcom gydweithio â datganoli. Mae'r Grŵp yn asesu'r meysydd o gyfrifoldeb rheoliadol y bydd swyddfa Ofcom Cymru yn cyfrannu iddynt, ac y mae hefyd yn awgrymu tasgau posibl eraill y gellid eu dirprwyo i swyddfa Ofcom Cymru. Ystyriodd y Grŵp ymhellach a ddylai fod unrhyw strwythur ymgynghorol yn gyfochrog â swyddfa weithredol Ofcom Cymru. Rhoddodd y Grŵp ystyriaeth i ddau opsiwn: [1] sefydlu Cyngor Cyfathrebu Ofcom Cymru i gynghori a chynorthwyo'r tîm gweithredol yng Nghymru, a [2] y dylai'r tîm gweithredol fod yn ddibynnol ar berthynas strwythuredig â'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd mwyafrif y Grŵp yn bendant o'r farn y dylid dilyn opsiwn 1, ac y mae asesiad mewn perthynas â sefydlu a gweithredu Cyngor Cyfathrebu Ofcom Cymru.

Mae'r bedwaredd bennod a'r olaf yn ystyried y materion sy'n wynebu Cymru ac Ofcom. Un o brif weithrediadau cyntaf Ofcom yw ei adolygiad o ddarlledu gwasanaethau cyhoeddus. dylai adolygiad o'r fath edrych nid yn unig ar y ddarpariaeth gyfan a wneir yng Nghymru i Gymru, yn y ddwy iaith, ond hefyd ar y ddarpariaeth deledu gyfan sydd ar gael i Gymru, a'r berthynas rhyngddynt. Mae'r Mesur yn gofyn i bob deiliad trwydded rhanbarthol Sianel 3 gynhyrchu Datganiad Polisi Rhaglenni ac mae'r Grŵp yn nodi y bydd angen i ddarllledwyr ymrwymo'n ddidwyll ac y bydd angen i'r rheolydd fod yn effro er mwyn sicrhau hygrededd i hunanreolaeth.

Mae'n anodd eithriadol sicrhau derbyniad cyffredinol i bawb yng Nghymru, o ran y cyfryngau darlledu a thelathrebu hefyd. Bydd Ofcom yn wynebu sialensau sylweddol yng Nghymru i sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr un ystod a'r dewis o wasanaethau digidol â defnyddwyr yng ngweddill y DU. Mae'r Grŵp o'r farn bod achos cryf dros edrych ar y materion hyn mewn dull holistig gan eu bod yn golygu fod yn rhaid i Gymru wynebu'r nod o adnabod y llwybrau cyflymaf o amlhau derbyniad digidol a mynediad i fand eang. Tynnir sylw hefyd at y Canllawiau Rhaglenni Electronig (EPG) a'r egwyddor bwysig o 'amlygrwydd dyledus' i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, ac yn benodol i wasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn y DU. Mae'n holl bwysig fod amrywiaethau rhanbarthol neu genedlaethol ar wasanaethau'r DU yn cael eu hystyried fel y prif wasanaethau rhagosodedig i'r rhanbarth neu'r wlad honno.

Bydd angen i Ofcom sicrhau bod y gwylwyr ar eu hennill mewn gwirionedd o unrhyw gyfuniad â Sianel 3 a dylai sicrhau nad yw'r bwlech rhwng ariannu rhaglenni ar lefelau rhwydwaith a rhanbarth yn parhau i ledu. Pwysleisiodd y Grŵp pa mor bwysig oedd hi i'r sector cynhyrchu Cymraeg gymryd rhan mewn cynhyrchu rhaglenni ar y lefel uchaf, ac i'r perwyl hwn pwysleisiodd pa mor bwysig oedd hi i Ofcom gasglu data rheolaidd ynglŷn â chynnyrch rhwydweithiau ar draws y DU i gyd fel bod patrymau cynhyrchu yn dod yn hollol eglur. Yn benodol, bydd Ofcom yn dymuno ymgyfarwyddo â'r sector cynhyrchwyr annibynnol gwahanol yng Nghymru a'r materion sy'n benodol i'r sector hwn. Dylai Ofcom sicrhau hefyd ei fod yn gwneud popeth posibl i gymell datblygu radio yng Nghymru, Radio Mynediad yn arbennig.

Bydd angen i Ofcom ymgyfarwyddo â'r materion telathrebu neilltuol sy'n wynebu Cymru. Mae cefnogaeth y sector cyhoeddus i ddatblygu band eang yng Nghymru yn wahanol iawn i ardaloedd eraill yn y DU a bydd angen i Ofcom gymryd hyn i ystyriaeth. Mae'n hanfodol hefyd bod diddordebau Cymreig penodol yn cael eu hystyried mewn trafodaethau ynglŷn â thrwyddedu sbectrum yn y dyfodol. Mae gwella derbyniad teleffoni symudol yng Nghymru yn gofyn am dulliau gwahanol i'r rhai hynny sy'n briodol mewn ardaloedd trefol, a bydd angen ymdrech wedi ei gydgyssylltu gan gyrff ac asiantaethau amrywiol, gan gynnwys Ofcom.

Yng ngoleuni'r cyfnerthu perchnogaeth posibl ym maes radio a theledu, a pherchnogaeth ar draws y cyfryngau rhwng y cyfryngau darlledu ac argraffu, teimlai'r Grŵp ei bod hi'n bwysig bod Ofcom yn cynnal astudiaeth buan o isadeileddau newyddion lleol. Byddai angen i ymchwil Ofcom ledled y DU ddarparu dadansoddiadau rhanbarthol cadarn, a

byddai gofyn hefyd i Ofcom lunio rhaglenni ymchwil penodol i Gymru ei hun, mewn cydweithrediad â'i fudd-ddeiliaid yng Nghymru. Wrth ddatblygu llythrennedd ym maes y cyfryngau, byddai angen i Ofcom ystyried amgylchiadau penodol yng Nghymru.

## Grŵp Ofcom – Cylch Gwaith ac Aelodaeth

Yn Ionawr 2003, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, Jenny Randerson AC, ei bod yn sefydlu grŵp o arbenigwyr ym maes darlledu a thelathrebu i'w chynghori ynglŷn â materion o bwys i Gymru yng ngoleuni'r Mesur Cyfathrebu a sefydlu Swyddfa Ofcom i Gymru.

Cafodd y Grŵp y gwaith o baratoi adroddiad a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Gweinidog i'w ystyried ganddi, cyn iddi ysgrifennu'n ffurfiol at Gadeirydd Ofcom ynglŷn â'r materion a enwyd uchod.

Roedd cylch gwaith y grŵp fel a ganlyn:

- Cynghori'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ynglŷn â rôl a swyddogaethau posibl Ofcom yn y dyfodol mewn perthynas â Chymru yng ngoleuni'r Mesur Cyfathrebu.
- Paratoi rhestr wirio o faterion o bwys i Gymru yng ngholeuni'r Mesur Cyfathrebu a sefydlu Swyddfa Ofcom i Gymru, i'w hystyried gan y Gweinidog

Cadeirydd y Grŵp oedd Geraint Talfan Davies, Aelod Cymreig yr Awdurdod Radio a chyn-Reolwr BBC Cymru, a Phennaeth Rhaglenni Tyne Tees Television. Yr aelodau eraill oedd:

- Leighton Andrews, Darlithydd yn Adran Newyddiaduraeth, Astudiaethau'r Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd, ymgynghorydd i PACT (*the Producers Alliance for Cinema and Television*) a chyn-Bennaeth Materion Cyhoeddus yn y BBC â chyfrifoldeb am faterion polisi'n ymwneud â'r cyfryngau yn y DU ac Ewrop.
- Delyth Evans AC, Aelod Llafur Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg. Mae'n gyn-newyddiadurwr â'r BBC, HTV, ITN a Sky News.
- Arwel Ellis Owen, Prif Weithredwr Cambrensis Communications Ltd, cwmni cynhyrchu annibynnol, a chyn-ddarlledwr â'r BBC.
- Yr Athro Mike Tedd, Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol Cymreig ar Delathrebu a chyn-Athro Cyfrifiadureg ac Is-Brifathro ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'r Athro Tedd wedi cadeirio Panel Defnyddwyr OFTEL hefyd.

Cyfarfu'r Grŵp 3 gwaith (13 Chwefror, 4 Mawrth a 17 Mawrth 2003) ac ymgynghorodd â darlledwyr, rheoleiddwyr a budd-ddeiliaid eraill wrth baratoi ei adroddiad.

# 1 Cefndir

## 1.1 Yr un fath ond yn wahanol

Nid yw darlledu, na thelathrebu, na rheoli cystadleuaeth yn swyddogaethau sydd wedi eu datganoli yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae'r dadleuon dros ddal yr holl swyddogaethau hyn yn ganolog yn rhai grymus: fframwaith o gyfarwyddiadau a pholisïau yr UE – rhoi sylw i'r farchnad fewnol, cystadleuaeth, gwybodaeth a thelathrebu – rheoli amleddau yn rhyngwladol, natur rhyngwladol llawer o fusnesau cyfryngau a thechnoleg, un tâl am drwydded BBC ledled y DU, darlledu trawsffiniol a thrwyddedau ITV (Border, HTV ac UTV), amrediad y rhan fwyaf o'r cyfryngau yn y DU.

Wedi dweud hynny, mae aelodau pob un o'r sefydliadau datganoledig â diddordeb byw yn nifer o'r materion sy'n codi: darlledu, oherwydd ei fod yn cyffwrdd bywydau eu hetholwyr mor uniongyrchol ac mai dyma'r prif ddull o gyfathrebu rhwng y rhai a etholwyd a'u hetholwyr; lledaenu'r technolegau newydd, oherwydd ei fod yn cael ei weld yn ystyriaeth allweddol o ran cystadleuaeth ar hyn o bryd ac i'r dyfodol; datblygu'r diwydiannau cyfryngau a chreadigol, oherwydd eu bod yn datblygu'n elfen gynyddol bwysig o economi Cymru; materion cystadleuaeth, oherwydd fod llai o ddewis fel arfer lle bo'r economi'n wanach ac yn fwy agored i fonopolïau neu led-fonopolïau.

O ganlyniad dadleuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gryf y dylai Cymru gael ei chynrychioli, ynghyd â'r Alban a Gogledd Iwerddon, ar brif Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr. Yn ogystal â hynny cefnogodd y cynnig y dylid sefydlu swyddfeydd Ofcom yn y dair gwlad. Mae'r ddadl dros ddarpariaethau o'r fath yn parhau i fod yn rymus.

## 1.2 Strwythurau gwleidyddol

Erbyn hyn mae trefn lywodraethol y DU yn fwy cymhleth. Rhoddwyd pwerau helaeth ond gwahanol i'r tri chorff datganoledig. Mae gan Senedd yr Alban amrediad eang o bwerau deddfwriaethol, fel sydd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon (sydd wedi ei atal ar hyn o bryd). Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau deddfu uniongyrchol, ond mae ganddo bŵer dros amrediad helaeth o is-ddeddfwriaeth. Sefydlwyd comisiwn dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Richard i archwilio pwerau Cynulliad Cymru. Gall hyn arwain at ganiatáu pwerau ychwanegol. Ar ben hynny, mae clytwaith o drefniadau atebolrwydd eisoes yn bodoli oddi mewn i'r dair gwlad yn y sectorau y mae Ofcom yn ymdrin â hwy.

Nid yw'r patrwm tair prif blaid wleidyddol yn cael ei ddilyn y tu allan i Loegr: oherwydd fod gan yr Alban a Chymru pedwaredd brif blaid sef yr SNP a Phlaid Cymru, ac mae sefyllfa Gogledd Iwerddon hyd yn oed yn fwy cymhleth oherwydd traddodiadau cenedlaethol ac unoliaethol cryf. Mae creu'r cyrff datganoledig hefyd wedi dwysáu sensitifrwydd sy'n bod ers tro ynglŷn â darparu darllediadau gan bleidiau gwleidyddol ym mhob gwlad.

## 1.3 Diwylliant a Chynnwys

Mae gwahaniaethau allweddol yng nghyd-destunau diwylliannol pob gwlad hefyd. Er bod cyfeirio at y tair gwlad Geltaidd fel grŵp yn rhywbeth cyffredin, ni ddylid tybio eu bod yn rhannu'r un nodweddion. Maent yr un mor wahanol i'w gilydd ag y mae pob un yn wahanol i Loegr. Mae pob un o adrannau gweithredol y cyrff datganoledig yn cynnwys Gweinidog

Diwylliant. Mae Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn arbennig, wedi rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu polisi diwylliannol o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei fod yn un maes polisi lle gellir gweld eu bod yn gwneud gwahaniaeth sylweddol, yn gyflym, yn gyfnewid am fuddsoddiad cymharol fychan, yn wahanol i iechyd neu addysg.

## 1.4 Iaith

Mae iaith yn fater gwleidyddol a diwylliannol ym mhob un o'r tair gwlad, er bod hyn ar ffurfiau gwahanol iawn. Gellir dadlau mai Cymru yw'r unig wlad y gellid ei galw'n ddwyieithog mewn unrhyw fodd ystyrion gyda 20.5 % (580,000) wedi eu cofnodi fel rhai sy'n siarad Cymraeg yng nghyfrifiad 2001, cynnydd o ddau y cant (78,000) ers 1991. Mae arolygon eraill yn nodi bodolaeth 6-10 y cant ychwanegol yn rheolaidd hefyd. Ar ben hynny, mae siaradwyr Cymraeg wedi eu gwasgaru trwy mwy na 50% o gartrefi, gan sefydlu'r iaith yn llawer ehangach ar draws y gymuned yn gyffredinol. Er enghraifft, yng nghymoedd canol de Cymru, dim ond 8% o'r boblogaeth a gofnodwyd fel rhai a oedd yn siarad Cymraeg yng nghyfrifiad 1991, ond yng nghanol y 1990au roedd 26% o blant ysgolion cynradd mewn ysgolion iaith Gymraeg.

Mae gofyn i bob corff cyhoeddus gadw at Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a chofrestru eu trefniadau gweithredol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn cadarnhau'r cysyniad o drin y ddwy iaith yn gyfartal. Ar ben hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu polisiau gweithredol pellach i feithrin yr iaith. Mae hyn yng nghyd-destun rhywfaint o dyndra ieithyddol sydd wedi ailgychwyn, o ganlyniad i'r dirywiad gwirioneddol ac ymddangosiadol mewn cymunedau 'y Fro Gymraeg' lle bu'r Gymraeg yn iaith i'r mwyafrif llethol. Yn y maes darlledu, prif ddarparwyr yr iaith Gymraeg yw S4C ym maes teledu a BBC Radio Cymru ym maes radio. Yn ogystal â hynny, mae nifer o'r gorsfoedd radio annibynnol yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru ag ymrwymadau i'r iaith Gymraeg fel rhan o'u trefn.

## 1.5 Defnyddio'r cyfryngau

Mae patrymau defnyddio'r cyfryngau yn wahanol ledled y tair gwlad. Mae'r Alban yn fwy hunangynhaliol o ran eu cyfryngau – mae mwy na 90% o'r papurau dyddiol a werthir yn yr Alban yn cael eu cynhyrchu yn yr Alban, ac y mae mwy o amrywiaeth ymhlith y perchnogion. Hyd yma, mae'r Alban wedi cadw lefel uwch o berchnogaeth brodorol ym maes y cyfryngau darlledu hefyd. O'i gymharu, mae dylanwad cyfryngau'r DU yn ddwfn ar Gymru, gyda llai na 20% o'r papurau dyddiol a werthir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn y wlad. O ran y rhai sy'n berchen ar deitlau brodorol, Trinity Mirror sydd â'r gyfran fwyaf o dipyn o'r farchnad: mae'n berchen ar yr unig ddau bapur boreol, yr unig bapur Sul, ynghyd â thabloid sy'n gwerthu'n dda - the *Welsh Mirror* – a phapurau nosweithiol ac wythnosol. Y rhan fwyaf o'r grwpiau radio mwyaf yw perchnogion y gorsfoedd radio yng Nghymru, ond dim ond un gorsaf radio sy'n eiddo i berchnogion brodorol. Mae gorgyffwrdd trawsffiniol sylweddol o ran signalau radio a theledu ar hyd dwyrain Cymru. Mae'n dechnegol bosibl i 40% o boblogaeth Cymru dderbyn signalau teledu o drosglwyddyddion yn Lloegr. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer yr Alban yw 2.8%. Yng Ngogledd Iwerddon mae lefel uchel o dreiddio gan y cyfryngau ar y ffin, i'r ddau gyfeiriad, ac y mae darlledu yn elfen bwysig yn narpariaethau'r Gogledd-De yng nghytundeb Gwener y Groglith.

## 1.6 Cynnwys darlledu

Er gwaethaf natur ganoleddig iawn y gyfundrefn ddarlledu yn y DU, mae gwahaniaethau allweddol yn bodoli yn y gwledydd sy'n rhan gyfansoddol ohoni. Yn y maes teledu, nid yw'r sefyllfa Saesneg – lle bo maint cynnyrch rhanbarthol ITV yn llawer iawn uwch nag eiddo'r BBC

– yn cael ei ailadrodd yn yr Alban, Cymru na Gogledd Iwerddon lle mae cynnyrch y BBC ar gyfer pob gwlad yn cyfateb i gynnyrch rhanbarthol ITV o ran swm ac, ar y cyfan, mae ag adnoddau gwell. Ym maes teledu, mae gan Gymru, yn S4C, ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol sydd â'r gorchwyl o ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Yn unigryw, mae'n derbyn cyfran sylweddol o'i rhaglenni – dim llai na 10 awr yr wythnos – gan y BBC yn rhad ac am ddim, yn ogystal â chan ddeiliad rhyddfrait ITV a chynhyrchwyr annibynnol dan drefniadau masnachol arferol. Mae Siarter Gwledydd a Rhanbarthau'r ITC yn ddiweddar yn darparu ar gyfer mwy o gynnyrch rhanbarthol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr. Mae'r tair gwlad yn rhoi pwys mawr hefyd ar yr angen i gynnal a chynyddu cynnyrch i rwydweithiau'r DU, ar sail economaidd ac ar sail cynrychiolaeth ddiwylliannol deg.

Ym maes radio, mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ar y cyd â nifer o rannau o Loegr, yn mwynhau cryn dipyn yn llai o ddewis nag ym mhrifddinasoedd mwyaf Lloegr, er bod rhanbarth canol yr Alban yn eithriad efallai. Nid yw'r BBC yn rheoli gorsafoedd radio lleol yn yr Alban na Chymru (ar wahân i ddarpariaeth 'optio allan' rhai rhaglenni newyddion lleol yn yr Alban), gan ffafrio darparu gorsafoedd cenedlaethol – Radio Scotland, Radio Wales a Radio Cymru (yn y Gymraeg). Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ddaearyddiaeth mwy cywasgedig yn rhoi manteision radio lleol i BBC Radio Ulster yn ogystal â rôl uwch ar gyfer y dalaith yn ei chyfanrwydd.

## 1.7 Darparu darlledu

Mae daeryddiaeth leol anodd ardaloedd poblog iawn Cymru (Cymoedd De Cymru) yn ogystal â'r ardaloedd tenau eu poblogaeth (cefn gwlad Cymru) wedi golygu mai Cymru sydd â'r nifer fwyaf o drosglwyddyddion yn y DU. Mae ganddi 5% o boblogaeth y DU a 20% o drosglwyddyddion. Bu derbyniad analog ym maes teledu a radio yn broblemus i raddau. Ym maes teledu mae hyn wedi arwain at nifer fawr o bobl yn dewis derbyn eu signalau o drosglwyddyddion yn Lloegr. I rai mae hyn wedi golygu dewis torri eu hunain i ffwrdd oddi wrth pob ffynhonnell o newyddion Cymreig. Mae ymchwil i batrymau gwyllo teledu analog wedi dangos y gall tua 40% o boblogaeth Cymru dderbyn signalau o drosglwyddyddion Saesneg. Mae tua 10% o boblogaeth Cymru yn dewis derbyn signalau o'r trosglwyddyddion hynny'n unig. Mae 30% yn fwy o boblogaeth Cymru yn derbyn signalau o drosglwyddyddion yng Nghymru a Lloegr. Mae tua un rhan o dair o'r rhain yn dewis derbyn amrywiadau rhanbarthol o Loegr, un rhan o dair yn dewis derbyn gwasanaethau Gymraeg, a'r gweddill yn rhannu eu gwyllo. Mae hyn yn rwystr sylweddol i ddemocratiaeth hyddysg, ac y mae'n un sy'n effeithio'n arbennig ar Gynulliad Cymru.

Mae'n ymddangos bod anawsterau anghymesur Cymru â throsglwyddo analog, o'i gymharu â'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU, yn mynd i gael eu hailadrodd gyda rhai o'r technolegau trosglwyddo newydd, ac fe waethygir hyn gan y ffaith fod lledaenu'r technolegau yma'n cael ei ddylanwadu fwyfwy gan ystyriaethau masnachol. Dim ond i raddau bach iawn y mae lledaeniad graddol darlledu daearol digidol, ar gyfer radio a theledu fel ei gilydd, a gwasgariad cyfyngedig cebl, yn cael ei wrthbwyso gan nifer uchel y rhai sy'n derbyn gwasanaethau lloeren digidol.

## 1.8 Telathrebu

Mae'r holl gyrrff datganoledig am sicrhau nad yw eu gwledydd dan unrhyw anfantais o ran telathrebu, naill ai yn y broses o ledaenu darlledu digidol neu delathrebu datblygedig. Yng Nghymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Phwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad, wedi pwysleisio'r angen i sicrhau nad yw Cymru ar ôl



gweddill y DU yn cyflwyno'r gwasanaethau hyn. Mae tlodi cymharol Cymru, o'i gymharu ag ardaloedd dinesig Lloegr, yn golygu mai dim ond yn araf deg, os o gwbl, y bydd grymoedd y farchnad yn unig yn darparu gwasanaethau datblygedig.

Mae canolbwyntio'n fanwl ar bolisïau wedi arwain at rai llwyddiannau; mae pob cyfnewidfa deliffon yng Nghymru yn rhai digidol bellach ac maent yn cynnal gwasanaethau fel nodi llinell alw (*call line identification* - CLI), ISDN ac mae gwasanaethau uwch fel Metro VPN gan BT ar gael ledled y wlad. Bydd y rhan fwyaf o linellau'n cynnal mynediad deialu i'r Rhynggrwyd. Mae'r prif bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â natur gaffaeladwy band eang a derbyniad gwael teleffoni symudol. Fodd bynnag, bydd y ffaith bod technoleg yn newid mor gyflym yn gosod targedau sy'n symud gydol yr amser i'r cyhoedd, darparwyr telathrebu a lluniwyr polisïau.

O dan yr amgylchiadau hyn mae egwyddor cyffredinolrwydd yn arbennig o amlwg yng Nghymru ar draws y maes cyfan, â'r Pwyllgor Ymgynghorol Telathrebu Cymru (WACT) a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno dadleuon o blaid Cronfa Gwasanaethau Cyffredinol. Yn ogystal â hynny, yn ngeiriau WACT, "Mae rheoli telathrebu'n ofalus yn hanfodol, yn enwedig mewn meysydd lle nad yw'n ymddangos bod llawer o obaith am gystadleuaeth effeithiol mewn isadeiledd telathrebu".

## 2 Bwriadau'r Llywodraeth

### 2.1 Datganiadau Polisi

Er nad yw wedi caniatáu cynrychiolaeth ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar y prif Fwrdd Ofcom, mae Llywodraeth y DU wedi dangos cryn dipyn o sensitifrwydd o ran mater eu cynrychioli mewn rhannau eraill o stwythurau Ofcom. Mae datganiad polisi'r Llywodraeth a ragflaenodd y Mesur yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at gynrychiolaeth ac ymgynghori mewn rhannau eraill o'r strwythur.

Mae tri bwriad eglur i'r rhain yn bennaf:

- Cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar y Bwrdd Cynnwys
- Cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar y Panel Defnyddwyr
- Sefydlu swyddfeydd Ofcom ym mhob gwlad.

Yn ogystal â hynny, mae'r datganiadau canlynol a rifwyd wedi eu codi o'r Datganiad Polisi ar y Mesur Cyfathrebu drafft, a gyhoeddwyd ym Mai 2002. (Cm 5508-111) Mae'r blychau dilynol yn crynhoi cynnwys presennol y Mesur, fel y'i dygwyd o'r Tŷ Cyffredin ar 5 Mawrth 2003.

“4.4.1.2 Ofcom...must have regard to the different interests of people in the different parts of the United Kingdom. This responsibility will rest equally on all members of the Ofcom Board.....there will be a major national and regional dimension to many of the Board's activities and these need to be fully reflected in all of the Board's work.”

**Cymal 3 – Isadran 3(l)** – Mae'n rhaid i Ofcom ddal sylw, yn benodol, ar gymaint o'r canlynol ag sy'n ymddangos yn berthnasol iddynt hwy dan yr amgylchiadau ... (l) diddordebau gwahanol pobl mewn rhannau gwahanol o'r DU a'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol .....

“4.4.1.5 ....Ofcom will be expected to carry out consumer and audience monitoring research to ascertain the opinions of people in Scotland, Wales, and Northern Ireland and will report regularly through the specific advisory and consultative machinery to the relevant Secretaries of State. These advisory and consultative arrangements will be broader in their remit than the existing arrangements.”

**Cymal 13 – Ymchwil Defnyddwyr**

**Cymal 14 – Dyletswydd i gyhoeddi a chymryd ymchwil i ystyriaeth**

**Cymal 15 – Ymgynghori â defnyddwyr**

**Cymal 16 – Aelodaeth y Panel Defnyddwyr - Isadran 6a** – Bydd yn ddyletswydd ar y Panel Defnyddwyr wrth gyflawni eu swyddogaethau i ddal sylw ar y buddiannau canlynol: a) buddiannau pobl o wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig ....

“4.4.1.6 ....Ofcom will be expected to establish offices in each nation. This will provide a visible service covering the whole range of Ofcom's functions and an important means of communication within each nation.”

**Cymal 1 – Isadran 6** – Mae'n rhaid i Ofcom sefydlu a chynnal swyddfeydd ar wahân ym mhob un o'rannau canlynol y Deyrnas Unedig (a) Lloegr; (b) Cymru; (c) Yr Alban; a (d) Gogledd Iwerddon.

“4.4.1.7 ...The Government expects Ofcom to consult the relevant Secretary of State and devolved administrations in making appointments of members representing the interests of the devolved nations to its committees and other ad hoc bodies....

**Sylwadau:** Er nad yw'r Mesur ar hyn o bryd yn cyfeirio at unrhyw ddyletswydd ar ran Ofcom i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol na gweinyddiaethau datganoledig wrth wneud penodiadau sy'n cynrychioli buddiannau'r gwledydd datganoledig, mae concordat yn bodoli rhwng yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymdrin ag ymgynghori ynglŷn â phenodiadau o'r fath. Mae angen sicrhau bod effaith y concordat yn cael ei ymestyn i benodiadau a wneir gan Ofcom ei hun. Gellid gwneud hyn naill ai trwy'r Mesur, trwy ddiwygio'r concordat neu trwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng Ofcom a'r gweinyddiaethau datganoledig.

#### **BWRDD CYNNWYS**

**Cymal 11 – Isadran 4** – Wrth benodi pobl yn aelodau o'r Bwrdd Cynnwys, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod, ar gyfer pob un o'r rhannau canlynol o'r Deyrnas Unedig (a) Lloegr, (b) Cymru, (c) Yr Alban, a (d) Gogledd Iwerddon, aelod gwahanol o'r Bwrdd sy'n gallu cynrychioli buddiannau a barn pobl sy'n byw yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig.

#### **PANEL DEFNYDDWYR**

**Cymal 16 – Isadrannau 2** – Mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol [DU] gymeradwyo penodiad unigolyn yn Gadeirydd neu aelod arall o'r panel.

**Cymal 16 – Isadran 3** - Wrth benodi pobl yn aelodau o'r Panel Defnyddwyr, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod, ar gyfer pob un o'r rhannau canlynol o'r Deyrnas Unedig (a) Lloegr, (b) Cymru, (c) Yr Alban, a (d) Gogledd Iwerddon, aelod gwahanol o'r Bwrdd sy'n gallu cynrychioli buddiannau a barn pobl sy'n byw yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig.

“....Ofcom's annual report will also need to address Scottish, Welsh and Northern Irish issues. We expect cross-border issues unique to Northern Ireland to be addressed by specific Ofcom arrangements....

**Sylwadau:** Mae Cymal 351 yn nodi dyletswydd Ofcom i gyhoeddi adroddiad ffeithiol ac ystadegol yn flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio'n benodol at yr angen, a fynegir uchod, i ymdrin â materion yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

#### **Cymal 351 – Adroddiad blynyddol ffeithiol ac ystadegol**

(1) Bydd yn ddyletswydd ar Ofcom—

(a) cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n cychwyn â dechrau'r adran hon, a

(b) chyn gynted ag sy'n ymarferol wedi diwedd pob cyfnod o ddeuddeg mis ar ôl hynny, i gwrdd â gofynion adolygu ac adrodd yr adran hon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(2) Ar gyfer unrhyw gyfnod yr ymrwymadau hynny yw —

(a) cynnal adolygiad o ddarpariaeth y gwasanaethau teledu a radio

sydd ar gael i'w derbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod hwnnw; a

(b) paratoi adroddiad ffeithiol ac ystadegol ar gyfer y cyfnod hwnnw ynglŷn â darpariaeth y gwasanaethau hynny ac ar gyflwr y farchnad lle y maent yn cael eu darparu.

- (3) Wrth gynnal adolygiad ar gyfer unrhyw gyfnod o dan yr adran hon, mae'n rhaid i Ofcom ystyried, yn neilltuoel, bob un o'r canlynol—
- (a) i ba raddau y mae rhaglenni a gynhwyswyd yn ystod y cyfnod hwnnw mewn gwasanaethau teledu a radio yn cynrychioli'r hyn y mae Ofcom yn ei ystyried yn brif genres ar gyfer rhaglenni o'r fath;
  - (b) i ba raddau y cydymffurfiwyd â chodau a wneir gan Ofcom dan y Rhan hon neu Ran 4 neu 5 Deddf 1996 (digwyddiadau wedi eu rhestru a thegwch) yn ystod y cyfnod hwnnw;

“...In addition, Ofcom will be expected to hold regular meetings in different parts of the country and ensure that its consultative procedures embrace specific arrangements for including the relevant administrations.

**Sylwadau:** Nid yw'r Mesur yn cyfeirio'n benodol at ddyletswydd i sicrhau bod ei weithdrefnau ymgynghori yn cynnwys trefniadau penodol ar gyfer cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig, na'r angen i gynnal cyfarfodydd mewn rhannau gwahanol o'r wlad.

“8.2.8.1...S4C, like the BBC, will be subject to regulation by Ofcom in relation to negative content requirements and industry-wide quotas and obligations. Like the BBC, S4C will remain self-regulating on matters such as impartiality and the fulfilment of its tier three remit.”

**Mae Cymal 331 ac Atodlen 12** yn cynnwys rheolau cyfatebol i'r BBC a'r Awdurdod Cymreig

“8.2.8.3 ...a power for the Secretary of State, at intervals of no less than five years, to review the performance of S4C against its tier three remit, having regard to any relevant views expressed by Ofcom, S4C and the Welsh Assembly.”

**Cymal 332 - Adolygiad o gyflawni Cyfrifoldeb Gwasanaeth Cyhoeddus gan yr Awdurdod Cymreig**

- (1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad o'r modd y cyflawnodd yr Awdurdod Cymreig ei ddyletswydd i sicrhau bod pob un o'r cyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus canlynol -
- (a) ar gyfer S4C;
  - (b) ar gyfer S4C Digidol; ac
  - (c) bod pob un o'r gwasanaethau rhaglenni teledu a ddarparwyd ganddynt â chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 200, yn cael ei gyflawni mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n berthnasol iddynt.
- (2) Bydd y canlynol yn berthnasol i'r adolygiad cyntaf a gynhelir dan yr adran hon—
- (a) bydd yr adolygiad sy'n gysylltiedig â'r cyfnod ers derbyn y Mesur hwn; a
  - (b) ni ddylid cynnal yr adolygiad cyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y derbyniwyd y Mesur hwn.
- (3) Bydd y canlynol yn berthnasol i adolygiad dilynol—
- (a) bydd yr adolygiad yn gysylltiedig â'r cyfnod ers diwedd y cyfnod yr oedd yr adolygiad blaenorol yn gysylltiedig ag ef; a
  - (b) ni ddylid cynnal yr adolygiad lai na phum mlynedd wedi diwrnod cyhoeddi adroddiad yr adolygiad blaenorol.
- (4) Mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon bydd yr Ysgrifennydd Gwladol—
- (a) yn ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Awdurdod Cymreig

- ynglŷn â'r materion dan sylw; ac  
(b) yn dâl sylw ar eu barn wrth ddod i'w gasgliadau.
- (5) Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori hefyd â phobl eraill y mae'n eu hystyried sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y ffaith a fydd yr Awdurdod Cymreig yn cyflawni'r dyletswydd y cyfeiriwyd ato yn isadran (1), ac ym mha fodd y bydd yn gwneud hynny.
- (6) Cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi cwblhau adolygiad dan yr adran hon rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad ynglŷn â'i gasgliadau.

Yn ogystal â'r cyfeiriad at gynrychiolaeth yn y datganiad polisi, gall datganiadau ynglŷn â gwasanaethau teledu digidol lleol a chynnwys a chymeriad gwasanaethau radio fod yn arbennig o berthnasol i Gymru.

“8.3.2.1 The White Paper stated that there is more scope for local television services, but acknowledged that Restricted Service licensees (RSLs) face a problem of spectrum uncertainty. The Government has affirmed that a post switchover plan will be developed to give RSL organisations a clearer indication of long-term prospects for local television services. We need therefore to enable Ofcom to licence digital local television services if spectrum is available for this purpose.”

**Cymal 241 – Gwasanaethau teledu digidol lleol**

- (1) Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu trwy orchymyn i—  
(a) unrhyw un o ofynion y Rhan hon (ar wahân i'r adran hon a'r gofynion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sain yn unig), neu  
(b) unrhyw ofynion o Ran 1 Deddf 1990 neu Ran 1 Deddf 1996 (rheoli gwasanaethau teledu),

ddod i rym, mewn perthynas â gwasanaethau o'r math ag y gellir eu gosod mewn gorchymyn dan yr adran hon, â'r fath newidiadau ag yr ystyria'n angenrheidiol neu'n briodol ar gyfer gwasanaethau o'r math hwnnw.

- (2) Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol i lunio gorchymyn dan yr adran hon mewn perthynas â disgrifiad gwasanaethau ac eithrio—

- (a) lle bo'r disgrifiad o wasanaethau sydd i'w darparu ar ffurf ddigidol gyda'r bwriad o'u cynnwys mewn gwasanaeth teledu multiplex ;  
(b) fod y disgrifiad wedi ei gyfyngu i wasanaethau sy'n dod o dan naill ai un neu ddwy o isadrannau (3) a (4); a

- (c) bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon fod llunio gorchymyn dan yr adran hon mewn perthynas â'r disgrifiad hwnnw o wasanaethau yn gwneud darparu gwasanaethau o'r fath yn bosibl, yn eu hyrwyddo neu'n eu cefnogi

- (3) Bydd gwasanaethau yn dod o dan yr isadran hon —

- (a) os ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer eu derbyn mewn sefydliad arbennig yn unig neu mewn adeilad arbennig fel arall; neu  
(b) os ydynt yn cael eu darparu i ddibenion digwyddiad neilltuol yn unig.

“8.3.2.2 The draft Bill therefore gives the Secretary of State the power to provide by order for any of the provisions relating to television services under this Act, under Part 1 of the Broadcasting Act 1990 and Part 1 of the Broadcasting Act 1996 to apply to local television services. Local television services are defined as services which are to be included on digital multiplexes; which

provide for a particular establishment or event; or are for reception in a particular area or locality and have the following key characteristics:

- they are likely to provide social and economic benefits to the area where they are likely to be received or to persons living or working in the area;
- they are likely to broaden the range of programmes available in the area or locality, and
- they are likely to increase programmes about the area or the number of programmes made in the area.”

**Cymal 241** (4) Bydd gwasanaethau yn dod o dan yr isadran hon os ystyria'r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn wasanaethau mewn perthynas â pha rai y mae'r holl amodau canlynol yn cael eu cyflawni—

- (a) eu bod wedi eu bwriadu i'w derbyn mewn ardal neu gymdogaeth neilltuol yn unig;
  - (b) fod eu darpariaeth yn cwrdd ag anghenion yr ardal neu'r gymdogaeth lle y maent yn cael eu derbyn, neu y byddent yn cwrdd â'r anghenion hynny;
  - (c) fod eu darpariaeth yn debygol o ehangu'r amrediad o raglenni teledu sydd ar gael i'w gwyllo gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, neu y byddai'n debygol o wneud hynny; a
  - (d) fod eu darpariaeth yn debygol o gynyddu nifer ac amrediad y rhaglenni ynglŷn â'r ardal neu'r gymdogaeth honno sydd ar gael i'w gwyllo, neu y byddai'n debygol o wneud hynny, neu i gynyddu nifer y rhaglenni a wneir yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno a fyddai ar gael yn y modd hwnnw.
- (5) Bydd gwasanaethau yn cael eu cymryd i ddibenion isadran (4) i gwrdd ag anghenion ardal neu gymdogaeth os, a dim ond os—
- (a) yw eu darpariaeth yn dod â buddiannau cymdeithasol neu economaidd i'r ardal neu'r gymdogaeth, neu i wahanol gategoriâu o bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; neu
  - (b) eu bod yn darparu ar gyfer chwaeth, diddordebau ac anghenion rhai neu'r cyfan o'r disgrifiadau gwahanol o bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu'r gymdogaeth (gan gynnwys, yn benodol, chwaeth, diddordebau ac anghenion sy'n arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r disgrifiadau o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno).
- (6) Yn isadrannau (4) a (5), mae'r cyfeiriadau at bobl sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal neu gymdogaeth yn cynnwys cyfeiriadau at bobl sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno.
- (7) Gall gorchymyn dan yr adran hon mewn perthynas â disgrifiad o wasanaethau, yn benodol, osod gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar gynnwys hysbysebion mewn gwasanaethau o'r math hwnnw ac ar noddi rhaglenni a gynhwysir yn y gwasanaethau.

**“8.4.1.8** ...a new duty on Ofcom to promote and protect the local content and character of local radio.”

**Cymal 307 – Cynnwys Lleol a nodweddion gwasanaethau darlledu sain lleol**

- (1) Bydd yn ddyletswydd i Ofcom gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau darlledu sain lleol yn y modd y mae'n ei ystyried sydd fwyaf tebygol o sicrhau -
- (a) fod rhaglenni sy'n cynnwys deunydd lleol yn rhan o wasanaethau o'r fath; a

- (b) bod dolenni eraill rhwng pob gwasanaeth o'r fath a'r ardal neu'r gymdogaeth y'i darparwyd ar eu cyfer yn cael eu sefydlu a'u cynnal.
- (2) Rhaid i Ofcom —
  - (a) lunio cod yn rhoi arweiniad ynglŷn â sut y mae'n ystyried y dylai gofynion isadran
- (1)(a) a (b) gael eu cyflawni; a
  - (b) dal sylw ar y cod hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau darlledu sain lleol.
- (3) Gall y cod, yn neilltuol, gynnwys arweiniad ynglŷn â pherthnasedd ar gyfer dibenion isadran (1)(a) a (b) —
  - (a) disgrifiadau gwahanol o ddeunydd lleol a gynhwysir mewn gwasanaethau darlledu sain;
  - (b) y graddau y mae rhaglenni a gynhyrchir yn lleol a hysbysebion lleol yn cael eu cynnwys yn y gwasanaethau;
  - (c) y graddau y gwneir defnydd o rai neu'r cyfan o'r ffactorau a nodir yn isadran
- (4) ar gyfer sefydlu a chynnal cysylltiadau rhwng gwasanaeth o'r fath ac ardal neu gymdogaeth.
- (4) Y ffactorau hynny yw —
  - (a) cyflogi neu ddefnydd arall i ddibenion gwasanaethu'r bobl sy'n byw, neu sydd â chysylltiadau fel arall â'r ardal neu gymdogaeth;
  - (b) y ddarpariaeth i bobl o'r fath , mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth , o gyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu;
  - (c) y defnydd o adeiladau mewn ardal neu gymdogaeth fel adeiladau lle darperir y gwasanaeth, neu fel adeilad lle rheolir darpariaeth y gwasanaeth.

Yn ogystal â'r materion sy'n ymddangos yn y Mesur, bwriedir cael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom a'r Ysgrifenyddion Gwladol tiriogaethol a/neu'r gweinyddiaethau datganoledig.

## 3 Swyddogaethau Ofcom yn y gwledydd

### 3.1 Trefniadau atebolrwydd presennol

#### BBC

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar Fwrdd y Llywodraethwyr gan 'Lywodraethwyr Cenedlaethol'. Mae'r Llywodraethwyr Cenedlaethol yn cael eu penodi trwy'r DCMS mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol. Mae Siarter y BBC hefyd yn darparu ar gyfer Cyngorau Darlledu Cenedlaethol sy'n cynorthwyo'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ei olwg cyffredinol ar y BBC. Gwneir penodiadau i'r Cyngorau yn dilyn hysbyseb agored. Mae aelodau'r Cyngor yn anweithredol a rhan-amser, ac fe'u dewisir i adlewyrchu amrywiaeth eang o brofiad a diddordebau. Panel Penodiadau sy'n cynnwys aseswr annibynnol a etholwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gwneud y penodiadau i'r Cyngor Darlledu Cenedlaethol. Y Llywodraethwr Cenedlaethol sy'n cadeirio'r Cyngor Darlledu priodol ym mhob achos. Bydd pob Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac y mae ganddo hyd at ddeuddeg o aelodau.

Mae cyfrifoldebau Cyngor Darlledu Cymru wedi eu nodi yn Siarter y BBC. Yn fras, mae'r rhain fel a ganlyn:

- sefydlu a monitro barn y cyhoedd ynglŷn â rhaglenni a gwasanaethau trwy ymchwil cynulleidfaoedd
- cynghori'r BBC ynglŷn â sut y mae'r amcanion yn adlewyrchu diddordebau Cymru
- cynorthwyo'r Gorfforaeth i greu amcanion, eu monitro a chynorthwyo yn y broses o glustnodi cyllid ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau oddi mewn i'r cyllid cyffredinol ar gyfer Cymru
- cyflwyno achos i'r BBC pe byddai unrhyw newid sylweddol yng nghronfa adnoddau'r Gorfforaeth
- sicrhau bod unrhyw sylwadau, cynigion a chwynion a wneir gan gynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu trin yn gywir
- adolygu rhaglenni a gynhyrchir gan BBC Cymru a gwneud sylwadau arnynt fel rhan o'r rhaglen Adolygu Perfformiad Blynyddol
- sicrhau bod gofynion y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn cael eu hateb yn gyffredinol
- gwneud sylwadau ar y cyd-destun cystadleuol a gwleidyddol yng Nghymru fel ag y mae'n effeithio ar raglenni a gwasanaethau BBC Cymru

Mae'r Cyngor wedi penodi Pwyllgor Ymgynghori Addysg a adwaenir fel y Cyngor Darlledu Addysgol i Gymru, a'r Pwyllgor Ymgynghori Apêl Cymru, sy'n rhoi cyngor ynglŷn ag apeliadau elusennol a pholisïau gweithredu cymdeithasol.

#### S4C

Awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd trwy statud yw Awdurdod S4C. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod S4C yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth cyhoeddus ac mewn dull sy'n cydymffurfio â'i gyfrifoldeb statudol. Mae'n cymeradwyo strategaeth rhaglenni bras S4C, a'r cydbwysedd rhwng rhannau Cymraeg a Saesneg y gwasanaeth. Yr Awdurdod hefyd yw'r corff rheoli ar gyfer rhaglenni a ddarlledir ar S4C. O'r herwydd mae'n gwneud yn siŵr fod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cydymffurfio'n digwydd o ran y codau darlledu gwahanol ac i ymchwilio i gwynion. Yr Awdurdod hefyd sydd â'r gorchwyl o ddarparu golwg cyffredinol ar weithgareddau S4C yn fwy cyffredinol a sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â rheolaeth ariannol. Mae'r Awdurdod hefyd yn cymeradwyo maint a natur



gweithgareddau masnachol S4C ac y mae gofyn iddo wneud trefniadau ar gyfer ymchwilio i farn gwylwyr. Penodir aelodau'r Awdurdod gan y DCMS mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'n rheoli unrhyw gyrrff ymgynghori ffurfiol. Ariennir S4C trwy'r DCMS a thrwy ddarpariaeth o ddeg awr o raglenni yr wythnos yn rhad ac am ddim gan y BBC.

### **ITC**

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar y Comisiwn. Mae pob un o'r tri chynrychiolydd yn cael eu penodi gan y DCMS mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol. Mae gan yr ITC swyddfa yng Nghaerdydd, Glasgow a Belfast, pob un â staff o 3/4. Mae swyddfa Cymru hefyd yn ymdrin â Gorllewin Lloegr gan mai un ardal rhyddfrait sy'n cynnwys Cymru a'r Gorllewin. Nid oes unrhyw swyddfa yng Ngorllewin Lloegr. Hyd 2002, roedd gan Gyngorau Ymgynghorol Gwylwyr (VCC) yr ITC ar gyfer pob gwlad. Mae'r rhain wedi cael eu dirwyn i ben bellach cyn i'r trefniadau gael eu rhoi yn eu lle o dan Ofcom.

### **Yr Awdurdod Radio**

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar yr Awdurdod. Mae pob un o'r tri chynrychiolydd yn cael eu penodi gan y DCMS mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal unrhyw swyddfeydd oddi allan i Lundain.

### **Y Comisiwn Safonau Darlledu**

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar y Comisiwn. Mae pob un o'r tri chynrychiolydd yn cael eu penodi gan y DCMS mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol. Nid oes gan y BSC unrhyw swyddfeydd y tu allan i Lundain.

### **Yr Asiantaeth Radio-Gyfathrebu**

Asiantaeth weithredol y DTI yw'r Asiantaeth Radio-Gyfathrebu. Mae ganddi swyddfeydd ym mhob gwlad (Caerdydd, Falkirk a Belfast). Mae swyddfa Gogledd Iwerddon yn delio hefyd ag Ynys Manaw. Mae staff o naw yn gweithio yn y swyddfa yng Nghymru. Maent yn cynllunio ac yn rheoli sbectwm radio yng Nghymru, gan gynnwys ymchwilio i broblemau tarfu ar y gwasanaeth, prosesu trwyddedau PMR lleol safonol, archwilio cyfarpar yn nhai cwsmeriaid, helpu a rhoi cyngor ynglŷn â phroblemau radio a chynnig gwasanaeth diagnostig taledig i ddefnyddwyr radio masnachol a domestig. Mae'r Asiantaeth hefyd wedi sefydlu Panel Cwsmeriaid ym mhob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau, ac y mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yng Nghymru. Mae aelodau'r panel yn cynnwys y gwasanaethau brys, yr Asiantaeth Arforol a Gwylwyr y Glannau, awdurdodau lleol, busnesau lleol a chyflenwyr radio.

### **Oftel**

Nid oes gan Oftel unrhyw swyddfeydd rhanbarthol, ond mae'n derbyn cyngor gan Bwyllgorau Ymgynghori ar Delathrebu o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodir eu haelodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol Masnach a Diwydiant. Mae eu cadeiryddion, ynghyd â chadeiryddion y tri phwyllgor ymgynghori arall yn y DU yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Cyffredinol Oftel fel y Panel Ymgynghorol Telecom.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer y dyfodol yn y gwledydd

### 3.2.1 Cydweithio â datganoli

Bydd yn rhaid i benderfyniadau ynglŷn â threfniadau Ofcom yn y tair gwlad – strwythurau, protocolau a staffio – ystyried nid yn unig yr ystyriaethau swyddogaethol ond hefyd ddynnameg system llywodraeth ddatganoledig. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys:

- yr angen i weithio gyda llywodraeth ddatganoledig yn hytrach nag yn ei herbyn
- effaith swyddogaethau heb eu datganoli ar swyddogaethau datganoledig – datblygu economaidd, diwylliant ac addysg yn arbennig
- y berthynas ffurfiol ac anffurfiol rhwng y corff datganoledig ar y naill law, ac, ar y llaw arall, swyddog cenedlaethol Ofcom y wlad honno, ei chynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr ac aelodau o unrhyw gorff ymgynghori ychwanegol arall fel Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom
- priodoldeb dirprwyo swyddogaethau oddi mewn i Ofcom ei hun a pha mor bell y dylid dirprwyo yn y modd hwnnw
- cyfrifoldeb y Bwrdd Ofcom ei hun i ddal sylw ar ddiddordebau'r gwledydd a'r rhanbarthau ar draws holl amrediad ei waith.

Mae'r ffaith y bydd rheoli'n cael ei gydgyfeirio yn golygu y bydd gan y swyddfeydd Ofcom yn y tair gwlad swyddogaeth llawer iawn mwy cynhwysfawr, a phroffil uwch, nag unrhyw un o'r swyddfeydd ar wahân sy'n bodoli ar hyn o bryd – ITC ac RcA. Byddai'r swyddfeydd hyn yn cynyddu ymhellach eto yn eu pwysigrwydd pe byddai'r BBC (ac yng Nghymru, S4C) yn cael eu dwyn yn llwyr o dan ymbarél Ofcom yn ddiweddarach.

Er nad yw cyfrifoldeb am ddarledu wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, neu i'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn anorfod bydd gan yr uwch swyddog Ofcom ym mhob gwlad berthynas â'r adrannau canlynol yn y cyrff datganoledig ar lefel gweision sifil a gweinidogion: diwylliant, datblygu economaidd ac addysg. Bydd yr un peth yn wir am y cynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr. Mae pob un o'r tri yn debygol o gael proffil cyhoeddus wedi eu gorfodi arnynt.

Bydd atebolrwydd yr uwch swyddog yn mhob gwlad yn cynnwys llinell reolaethol eglur i mewn i strwythurau canolog Ofcom. Bydd maint eu cyfrifoldebau yn sylweddol ac yn rhywbeth hollol newydd yn y meysydd hyn. I fod yn effeithiol byddant angen eu gosod ar reng briodol, fel rhan o dîm uwch reoli y Prif Weithredwr os yn bosib.

### 3.2.2 Swyddogaethau Swyddfa Genedlaethol Ofcom

Bydd y cyfrifoldebau canlynol o du Ofcom yn cynnwys cyfraniad o'r swyddfa genedlaethol yng Nghymru. Mae'r system dair haen o reoli yn cael ei gynnwys gan y pwerau yng Nghymalau 259-339 y Mesur.

### ***Darlledu***

#### ***Haen 1 – gofynion sylfaenolar gyfer g wasanaethau darlledu***

- Safonau cynnwys rhaglenni – tegwch, bod yn ddiuedd ayyb.
- Safonau hysbysebu a rheolau ynglŷn â nawdd
- Cyfleoedd cyfartal a hyfforddi
- Is-deitlo, iaith arwyddo a disgrifiad clywedol

#### ***Haen 2 – gofynion penodol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus***

- Cwotâu ar gyfer cynhyrchu annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol
- Darparu newyddion a materion cyfoes o safon uchel ar yr oriau brig
- Darparu darllediadau gwleidyddol gan y pleidiau
- Rhaglenni ysgolion
- Gwarchod yr elfen leol ym maes radio

#### ***Haen 3 – hunanreoli gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus***

- Llunio cyfrifoldeb gwasanaeth i'r cyhoedd
- Gorchwylion penodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol
- Dyletswydd Ofcom i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac adrodd arno
- Rheidrwydd i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gyhoeddi datganiad blynyddol ynglŷn â pholisi rhaglenni ac adroddiad blynyddol ynglŷn â pherfformiad, i'w adolygu gan Ofcom
- Pwerau gorfodaeth i Ofcom er mwyn cywiro diffygion

### ***Ymchwil a llythrennedd Cyfryngau***

- Llunio a dehongli rhaglenni ymchwil Ofcom
- Rheoli rhaglenni ymchwil penodol
- Monitro'r gynulleidfa
- Datblygu a hyrwyddo rhaglenni llythrennedd cyfryngau

### ***Materion Technegol a Chystadleuaeth***

- Cynllunio amleddau
- Trwyddedu mynediad di-wifr sefydlog
- Dyletswyddau gwasanaeth cyffredinol ac ariannu
- Cwynion defnyddwyr telathrebu
- Dimensiwn gofodol i effeithiau masnachu sbectrwm

### ***Swyddogaethau posibl eraill swyddfa Ofcom Cymru***

- Cyfraniad ynglŷn â thrwyddedu radio annibynnol
- Cyfraniad ynglŷn â thrwyddedu Radio Mynediad
- Cyfraniad ynglŷn â thrwyddedu RSL
- Delio â chwynion – cynnwys a defnyddwyr
- Perthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru / Y Cynulliad Cenedlaethol
- Adroddiad blynyddol ynglŷn â chyfrifoldebau Ofcom fel ag y maent yn effeithio ar Gymru
- Trefnu rhaglenni o gyfarfodydd cyhoeddus

Bydd Ofcom yn cael ei enwi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac o'r herwydd bydd yn rhaid iddo baratoi Cynllun Iaith Gymraeg statudol i'w gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd angen i'r swyddfa Ofcom yng Nghymru fod â'r gallu i weithredu'n gyfangwbl ddwyieithog.

### 3.2.3 Strwythur ymgynghori?

O ystyried amrediad eang unigryw cylch gwaith Ofcom rydym wedi ystyried a ddylai unrhyw strwythur ymgynghori fodoli ochr yn ochr â'r tîm gweithredol yn Swyddfa Ofcom Cymru. Rydym wedi ystyried dau bosibilrwydd:

**Opsiwn 1:** Y dylid sefydlu Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom i gynghori a chynorthwyo'r tîm gweithredol yng Nghymru.

**Opsiwn 2:** Na ddylai Ofcom greu unrhyw strwythur ymgynghori, ac y dylai'r tîm gweithredol yng Nghymru fod yn ddibynnol ar berthynas strwythuredig â'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn lle hynny.

### 3.2.4 Opsiwn 1 – Y ddadl dros Gyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom

Sefydlwyd y ddadl dros sefydlu cyngor ymgynghori i Ofcom yng Nghymru ar y gred:

- y dylai atebolrwydd y swyddfa genedlaethol/swyddogion cenedlaethol fod yn ehangach nag atebolrwydd rheolaeth i'r ganolfan yn unig
- y dylai swyddfa Cymru fod â mynediad rheolaidd i wybodaeth ac arbenigedd lleol arbenigol

ac y byddai Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom yn:

- cryfhau cyfreithlondeb Swyddfa Ofcom ar gyfer Cymru, yn llygaid y cyhoedd yn ogystal â'r sefydliadau datganoledig
- creu mwy o bosibiliadau o ddirprwyo tasgau i swyddfeydd cenedlaethol ar y lefel Gymreig, *ond oddi mewn i system unedig o reoleiddio ar draws y DU*
- darparu cefnogaeth i'r tîm Ofcom – y swyddogion gweithredol a'r cynrychiolwyr Gymreig unigol ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr
- darparu dull effeithiol o gysylltu â meysydd perthnasol eraill cymdeithas sifil ym mhob gwlad, a gwella gwybodaeth Ofcom ar lawr gwlad
- sicrhau nad yw trefniadau Ofcom yn llai boddhaol nag eiddo'r BBC â'i Gynghorau Darlledu Cenedlaethol neu'r cwmnïau ITV â'u byrddau a'u cynghorau ymgynghori newydd.

### **Swyddogaethau Cyngor Cyfathrebu Cymru**

Gallai swyddogaethau Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom gynnwys y canlynol:

Darparu cyngor ynglŷn â

- materion Haenau 1, 2 a 3
- materion yn gysylltiedig ag adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus
- materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac adolygu S4C
- gwarchod yr elfen leol ym maes radio
- y rhaglen drwyddedu radio annibynnol
- trwyddedu Radio Mynediad

- trwyddedu Trwydded Gwasanaethau Cyfyngedig (RSL) teledu a radio
- cynnwys rhaglenni ymchwil
- perchnogaeth cyfryngau a materion ar draws y cyfryngau
- materion telathrebu, fel darparu band eang
- rhaglenni llythrennedd cyfryngau oddi mewn i gyd-destunau addysgol ac ieithoedd gwahanol pob gwlad
- delio â chwynion ynglŷn â chynnwys a materion defnyddwyr

O fod â strwythur ymgynghori o'r fath yn ei le, byddai Ofcom yn gallu ystyried hefyd pa mor briodol fyddai dirprwyo tasgau penodol i Gyngor Cyfathrebu Cymru. O'i reoli'n gywir, ni ddylai hyn arwain at anghysondeb ledled y wlad ac nid oes angen iddo wneud hynny. Mae'n sylfaenol i unrhyw ddull datganoledig y dylid gwneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth leol orau posibl, ond mae cysondeb ledled y DU yn bwysig hefyd, a swyddogion pob gwlad fyddai â'r gwaith o warantu'r cysondeb hwn trwy gysylltiadau effeithiol â staff ym mhob adran o Ofcom. I'r perwyl hwn rydym yn rhagweld y byddai staff wedi eu lleoli'n ganolog yn mynychu cyfarfodydd unrhyw gyngor ymgynghori pryd bynnag y byddai hynny'n briodol.

### **3.2.5 Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom – Materion Canlyniadol**

Pe byddai Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom yn cael ei greu, byddai angen ystyried y materion dilynol canlynol:

#### **a) Aelodaeth a Strwythur**

Os gwelir creu Cyngor ymgynghori mae cwestiwn eilaidd yn dilyn: a ellir cyfuno'r swyddogaethau hyn i gyd, o ran cynnwys a defnyddwyr, yn un Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom neu a oes angen unrhyw gorff ychwanegol.

Bydd y Bwrdd Cynnwys yn rhan bendant o Ofcom, â phwerau wedi eu dirprwyo; bydd gan y Panel Defnyddwyr statws mwy annibynnol, â phwerau i gynghori yn unig. Gellir dadlau y byddai un Cyngor Cyfathrebu Cymreig yn ei chael yn anodd i gwmpasu agweddau'r cynnwys a defnyddwyr, yn arbennig gan mai materion yn ymwneud â chynnwys, sy'n tueddu i ennyn y diddordeb ehangach ymhlith y cyhoedd, a allai fod amlycaf. Mae dadl dros wahanu materion cynnwys ac economi dan gyrff ymgynghori ar wahân. Hyd yn oed ar lefel y gwledydd datganoledig, credwn ei bod yn hanfodol bwysig fod y pwysigrwydd dyledus yn cael ei roi i'r agwedd ynglŷn â defnyddwyr.

Ar y llaw arall, mae angen dal sylw hefyd ar ddau ffactor pwysig: yr angen i gydgyfeirio'r dull o feddwl, sydd ymhlyg yn natur gydgyfeiriedig Ofcom ei hun, a'r angen am gyn lleied o weinyddu ag sy'n bosibl ac eglurder wrth gyflwyno. Mae'r adran uchod ar drefniadau atebolrwydd presennol yn rhestru casgliad o gyrff yn y meysydd darlledu a thelathrebu. Mae dadl gref y byddai un Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom yn darparu eglurder a symlwydd i bob parti – y Bwrdd Ofcom, gweinyddiaethau datganoledig, budd-ddeiliaid eraill a'r cyhoedd. Mae grym ychwanegol i hyn ar adeg pan nad yw'r baich gwaith a dolenni gyda rhannau eraill o Ofcom wedi eu sefydlu hyd yn hyn.

Bu'n rhaid i ni hefyd ystyried a fyddai statws lled-annibynnol y Panel Defnyddwyr, fel y'i rhagwelir yn y Mesur, (ac yn arbennig o ystyried pwer penodol y Panel i sefydlu ei is-bwyllgorau cenedlaethol ei hun) yn rwystr i greu Cyngor unedig. Yn ein barn ni, mae natur *ymgynghorol* y pwerau a ragwelwn ar gyfer y cyngor cenedlaethol yn golygu na ddylai hyn fod yn rhwystr.

O'r herwydd, rydym yn ffafrio cael un cyngor, ond â nifer ac amrywiaeth digonol o aelodau i sefydlu dau is-grŵp sefydlog, yn delio â materion cynnwys a defnyddwyr yn y drefn honno. Byddai hyn yn fodd i gael yr un cyfuno ar draws swyddogaethau Ofcom yng Nghymru ag a geisir yn y canol, tra'n caniatáu arbenigo hefyd. Â'r amcanion hyn dan sylw byddai gofyn i Gyngor gynnwys dim llai na 10 ond dim mwy na 12 o bobl.

Mae rhai wedi awgrymu y dylai'r Cyngor gynnwys budd-ddeiliaid eraill hefyd, fel Cyngor Darlledu'r BBC, Awdurdod S4C a Chyngor Defnyddwyr Cymru. Credwn yn bendant y bydd Ofcom yn dymuno rhoi pob anogaeth i'r broses o greu perthynas adeiladol ag agendau cydweithrediadol – fel rhaglenni ymchwil wedi eu cydgysylltu – yn ogystal â chreu cytundeb ehangach ar sail cynlluniau ar gyfer polisïau. Er hynny, bydd yn bwysig cynnal arwahanrwydd cywir rhwng y sawl sy'n rheoli a'r un a reolir, yn enwedig mewn cymunedau cenedlaethol llai.

Ni fyddai creu Cyngor o'r fath yn dileu'r angen am berthynas strwythuredig â'r Cynulliad Cenedlaethol fel y'i heglurwyd yn Opsiwn 2 isod, ond byddai â'r bwriad o gadw'r pellter angenrheidiol rhwng y Llywodraeth a rheolwr cyfryngau pwerus.

### **b) Perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol**

Er bod swyddogaethau a gynhwysir gan Ofcom y tu allan i amrediad swyddogaethau datganoledig, maent yn cyffwrdd yn uniongyrchol iawn â nifer o swyddogaethau datganoledig ar draws pob un o sefydliadau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r effeithiau amlycaf ym meysydd diwylliant, datblygu economaidd ac addysg, ond mae estyn dulliau electronig o weithredu ar draws holl amrediad llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus cysylltiedig - y gwasanaeth iechyd yn arbennig – yn golygu y bydd y sefydliadau datganoledig eu hunain yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan nifer o benderfyniadau Ofcom.

Oherwydd y rhesymau hyn ein barn ni yw fod angen datblygu cysylltau cryf ac effeithiol rhwng Ofcom a'r Cynulliad Cenedlaethol – â'i bwyllgorau pwnc a Llywodraeth Cynulliad Cymru – i sicrhau:

- fod y fframwaith rheoli yn darparu'r amodau cywir ar gyfer cyflwyno polisïau'r Cynulliad ar draws ei holl swyddogaethau yn effeithiol
- fod y Cynulliad yn hollol ymwybodol o faterion rheoli a datblygiadau fel ag y maent yn effeithio ar ei swyddogaethau, ag amseroldeb sy'n caniatáu cyfraniad iawn i ffurfio polisïau yn ogystal â darparu
- fod Ofcom yn dal sylw cywir i fuddiannau pobl Cymru, fel y'u cynrychiolir yn ddemocrataidd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Oherwydd y rhesymau hyn byddai cysylltiadau strwythuredig rhwng Ofcom a'r Cynulliad Cenedlaethol ar wahanol lefelau yn angenrheidiol p'run ai a oes gan Ofcom ei gorff ymgynghori ei hun ai peidio. Nodir rhestr o'r cysylltiadau hyn isod o dan Opsiwn 2.

### **c) Sail gyfreithiol ar gyfer Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom**

Ar hyn o bryd nid yw'r Mesur Cyfathrebu yn cyfeirio o gwbl at bresenoldeb posibl Cyngorau Cenedlaethol Ofcom yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. O'r herwydd byddai unrhyw Gyngorau o'r fath yn bodoli yn ôl disgrisiwn Bwrdd Ofcom. Nid ydym yn credu y byddai hyn yn ddymunol. Os yw Cyngorau ymgynghori o'r fath i fodoli mae'n bwysig fod sail statudol iddynt.

Mae presenoldeb tri Chyngor Darlledu Cenedlaethol y BBC yn cael ei gynnwys yn Siarter Brenhinol y BBC. Mae sail statudol i Awdurod S4C wedi ei gynnwys mewn cyfres o Ddeddfau Darlledu. Mae sail statudol i'r Cwmni Darlledu Gaeleg yn yr Alban hefyd. Ni ddylai Cyngorau Cenedlaethol Ofcom fod yn is eu statws na'r cyrff y maent yn cynorthwyo i'w rheoli, naill ai fel cyfanwaith neu yn rhannol.

Yn ail, bydd sail statudol i'r Cyngorau, trwy osod eu bodolaeth a'u statws y tu hwnt i bob amheuaeth, yn newid y berthynas rhwng Ofcom yn ganolog ac yn y gwledydd priodol a hynny'n sylweddol ac er lles, gan roi tawelwch meddwl a sefydlogrwydd dros y graddfeydd hir o amser a awgrymir yn llawer o gynnwys y Mesur Cyfathrebu.

**Yn y Mesur, dylid cynnwys yr hawl i Gyngorau unedig, cydgyfeiriol fodoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

**d) Cadeirydd y Cyngor**

Estyniad rhesymegol o'n hoffter am Gyngor unedig yw'r ffaith y gellid ymddiried rôl Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol naill ai yn y cynrychiolydd cenedlaethol ar y Bwrdd Cynnwys neu yn y cynrychiolydd cenedlaethol ar y Panel Defnyddwyr. Ofcom ddylai dewis y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r weinyddiaeth ddatganoledig. Byddai pa gynrychiolydd bynnag na ddewiswyd yn gweithredu fel is-gadeirydd.

**e) Penodiadau**

Mae'r amrediad pwysig o swyddogaethau a ragwelir yma ar gyfer Cyngor Cyfathrebu Cymru yn deddfu y dylid penodi aelodau trwy gyfrwng y trefnau Nolan arferol, ac y dylent gynnwys ymgynghoriad ffurfiol rhwng Ofcom a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Credwn fod diffyg darpariaeth benodol ar gyfer ymgynghori ynglŷn â phenodiadau rhwng Ofcom a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ddiffyg difrifol yn y Mesur ac y dylid ei unioni.

### **3.2.6 Opsiwn 2 – Dim strwythur ymgynghori Ofcom**

Dan yr opsiwn hwn, ni fyddai gan Swyddfa Ofcom Cymru gyngor ymgynghori, ond byddai'n dibynnu yn lle hynny ar sefydlu perthynas uniongyrchol, yn ôl yr angen, rhwng, ar y naill law, tîm rheoli Ofcom yng Nghymru a'r cynrychiolwyr Cymreig unigol ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr ac, ar y llaw arall, y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r ddadl dros ddibynnu ar y trefniant hwn wedi ei seilio ar y gred

- mai'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r unig gorff a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n cynrychioli Cymru yn unig, ac o'r herwydd y mae'n darparu'r fforwm gorau ar gyfer trefnu cyfraniad o Gymru i faterion cyfathrebu
- yr unig gyrff sydd yn gyfreithlon ddemocrataidd i wneud cyfraniadau o'r fath yw'r Cynulliad Cenedlaethol ac, yn y Senedd, y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a'r Uwch Bwyllgor Cymreig
- y gellir cael unrhyw ddarlun pellach o farn Cymru trwy ddulliau 'procsi', megis rheithgorau dinasgyddion

- y byddai strwythur ymgynghori Ofcom yn rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag datblygu corff arbenigol o wybodaeth yn y maes cyfathrebu
- y byddai bodolaeth cyngor ymgynghori yn gwneud llinellau atebolrwydd yn aneglur ac yn tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth dasgau rheoli'r swyddfa genedlaethol.

O dan yr opsiwn hwn byddai'n arbennig o bwysig i sefydlu llinellau cyfathrebu eglur rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Swyddfa Ofcom Cymru. Mae'r rhain yn debygol o fod ar dair lefel wahanol ym mhob un cyfundrefn:

### **Ofcom**

- Bwrdd Ofcom
- Swyddfa Genedlaethol Ofcom i Gymru
- Aelod Cymraeg – Bwrdd Cynnwys / Aelod Cymraeg – Panel Defnyddwyr / Cyngor Cenedlaethol

### **Y Cynulliad Cenedlaethol**

- Llywodraeth Cynulliad Cymru  
(y Gweinidogion Diwylliant a Datblygu Economaidd yn bennaf)
- Swyddogion y Cynulliad (yr Adranau Diwylliant a Datblygu Economaidd yn bennaf)
- Aelodau'r Cynulliad (Pwyllgorau Diwylliant a Datblygu Economaidd yn bennaf)

Bydd amllder y cyfarfodydd ar y gwahanol lefelau yn dibynnu'n rhannol ar anghenion yr agenda. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd cyfraniadau rheolaidd, perthnasol i Gymru, gan Ofcom, yn deillio o'r canol a hefyd o'r swyddogion cenedlaethol a'r Cyngor yng Nghaerdydd, ac y byddai yn fuddiol o'r herwydd i sefydlu patrwm o gyswllt ffurfiol. Yn anad dim, byddem yn disgwyl y byddai Ofcom yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ynglŷn â'i weithgareddau yng Nghymru yn ogystal â'i Adroddiad Blynyddol ar y DU, ac y byddai'r ddwy ddogfen yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad, trwy'r Pwyllgor Diwylliant.

Mae hyn yn awgrymu'r canlynol fel patrwm posibl o gysylltiadau ar y lefelau gwahanol:

### **Lefel Gweinidogion**

Cyfarfod ffurfiol rheolaidd (yn flynyddol mae'n debyg) rhwng y Gweinidog a Chadeirydd Ofcom a/neu unrhyw aelodau o'r prif fwrdd a ymddiriedwyd â'r cyfrifoldeb dros y gwledydd a'r rhanbarthau. Cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd (bob chwe mis mae'n debyg) â chynrychiolwyr Cymru ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr.

### **Lefel Swyddogion**

Cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion uwch y Cynulliad a'r uwch swyddog Ofcom i Gymru, cyn amled ag sy'n angenrheidiol i gynnal perthynas ddeallus a chynhyrchiol ac i alluogi'r ddau set o swyddogion i fod gyfuwch â materion cyfoes perthnasol sy'n codi o'r ddau barti.

### **Pwyllgorau'r Cynulliad**

Dylid gwahodd aelodau Cymru ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr i wneud cyflwyniadau, yn flynyddol o leiaf, i bwyllgorau pwnc perthnasol y Cynulliad.



### **3.2.7 Diwedd glo**

Mae mwyafrif aelodau ein grŵp yn bendant o'r farn mai opsiwn 1, sef sefydlu Cyngor Cyfathrebu Cymru Ofcom, ddylai fod yr opsiwn a ddewisir.

## 4 Materion sy'n wynebu Cymru ac Ofcom

### 4.1 Materion a godwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae ystod cylch gwaith Ofcom yn hynod eang. Bydd ei waith yn cyffwrdd â'n bywyd bob dydd fel unigolion ac fel cymunedau, fel defnyddwyr ac fel dinasyddion. Bydd yn cyffwrdd hefyd â chyflwr ein heconomi, ein diwylliant, a'n democratiaeth. Nid yw ein cylch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ni chwilio am atebion i gwestiynau dyrys sy'n aml yn plethu i'w gilydd, ond yn hytrach i adnabod materion a chwestiynau y bydd yn rhaid i ni i gyd fod yn effro iddynt. Yma rydym wedi ceisio rhestru materion sy'n effeithio'n arbennig ar Gymru, materion y bydd yn rhaid i Ofcom a chyrrff eraill, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, roi sylw iddynt mewn gwahanol ffyrdd.

Rydym hefyd wedi rhoi sylw i'r materion sydd a nodwyd mewn papur i'r Pwyllgor Diwylliant ar 5 Chwefror 2003, hynny yw:

- Pwysigrwydd rhaglennu a chynhyrchu rhanbarthol
- Cwotâu penodol ar nifer yr oriau, y gyfran a'r buddsoddiad mewn rhaglennu a chynhyrchu rhanbarthol
- Sicrhau bod buddsoddiad yn parhau yng Nghymru ar Sianel 3 a Sianel 5 hyd at 2014 ac wedi hynny
- Cydbwysio dad-reoleiddio perchnogaeth gyfryngol â dyletswydd i sicrhau ansawdd
- Materion mynediad

### 4.2 Egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus

Mae natur topograffig arbennig Cymru, ynghyd â dosbarthiad poblogaeth anwastad, wedi golygu nad yw'n lleoliad hawdd ar gyfer cyfryngau masnachol nac ar gyfer sefydlu telathrebu, naill ai ar lefel leol neu genedlaethol. Mae Cymru felly wedi dibynnu'n arbennig ar egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus yn ei holl ffurfiau, gan gynnwys yr egwyddor o ddarlledu i bawb, i gyflawni ei hanghenion o ran cyfathrebu ac, mewn darlledu, i roi mynegian ti dalantau, diwylliant a gwerthoedd ei phobl.

Tra bod achos economaidd cryf ar gyfer cryfhau darpariaeth fasnachol yng Nghymru ar draws yr amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu, bydd Cymru'n parhau i ddibynnu'n helaeth ar gynnal egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus, a hynny o ran paratoi rhaglenni perthnasol neu o ran sicrhau mynediad i dechnoleg newydd. Bydd yn ofynnol i Ofcom ddiogelu'r egwyddorion hynny mewn sawl maes.

### 4.3 Arolygon o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae **Cymal 260** yn ei gwneud yn orfodol i Ofcom, o fewn 12 mis, "gynnal arolwg o'r graddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi darparu gwasanaethau teledu perthnasol sydd (o'u hystyried i gyd yn ystod y cyfnod) yn cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth teledu cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.....gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd gwasanaeth darlledu cyhoeddus ym maes teledu yn y Deyrnas Unedig."

Yn ôl y cymal hwn wrth gyflawni dibenion gwasanaeth cyhoeddus rhaid sicrhau bod  
“gweithgaredd diwylliannol yn y Deyrnas Unedig, a’i amrywiaeth, yn cael ei adlewyrchu, ei gynnal a’i symbylu drwy gyfraniad drama, comedi a cherddoriaeth yn y gwasanaethau hynny (o’u hystyried i gyd) a thrwy ein hymdriniaeth o gelfyddydau perfformio a gweledol eraill....

“bod y gwasanaethau hynny (o’u hystyried i gyd) yn cynnwys yr hyn sydd ym marn Ofcom yn nifer ddigonol o raglenni sy’n adlewyrchu bywyd a phryderon gwahanol gymunedau a diddordebau a thraddodiadau diwylliannol o fewn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o’r Deyrnas Unedig ....

“bod y gwasanaethau hynny (o’u hystyried i gyd), cyn belled â’u bod yn cynnwys rhaglenni a wnaed yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys yr hyn sy’n ymddangos i Ofcom yn amrywiaeth a chyfran briodol o raglenni a wnaed y tu allan i ardal yr M25.”

Mae’r BBC, S4C, pob gwasanaeth Sianel 3, Sianel 4 a Sianel 5 a’r sawl sy’n darparu Teletestun i’r cyhoedd wedi’u cynnwys oddi mewn i ystod yr adran hon. Sail yr arolwg hwn o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus fydd yn arwain arolwg Ofcom o’r datganiadau blynyddol ynghylch polisi rhaglenni y bydd yn ofynnol i holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eu cyhoeddi. Bydd hyn hefyd yn sail i fesur y datganiadau hyn.

Mae darpariaethau’r cymalau hyn yn ein hatgoffa nad yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyfystyr â’r BBC, er mai’r BBC, fel y sawl sy’n derbyn y tâl trwyddedu, a ddylai arwain yn y maes. Mae teledu a radio annibynnol ar lefel leol a chenedlaethol, yn ogystal â S4C yng Nghymru yn cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus pwysig. Yn achos darparwyr masnachol, nid bonws yn unig i’r cyhoedd yw natur y gofynion cyhoeddus hyn i’r cyhoedd ond yn hytrach maent yn rhan o’r pris sydd angen i’r darparwyr hynny ei dalu am gael mynediad i ofod sbectrwm gwerthfawr a chyfyngedig.

Yn ôl yr arolwg mae’n ofynnol i Ofcom edrych ar yr hyn a gynhyrchir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus “o’u hystyried i gyd”. Yn yr un modd, bydd yn rhaid i Ofcom ac unrhyw Gyngor Cyfathrebu arfaethedig yng Nghymru, edrych nid yn unig ar yr holl ddarpariaeth a wneir yng Nghymru ar gyfer Cymru, yn y ddwy iaith, ond hefyd ar yr holl ddarpariaeth o ran teledu y mae’n bosibl cael mynediad iddi yng Nghymru, a’u perthynas â’i gilydd. Bydd yn rhaid asesu nid yn unig ba mor dda mae’r sefydliadau darlledu’n gwasanaethu’r cyhoedd yng Nghymru, ond hefyd pa mor dda mae gwasanaethau’r Deyrnas Unedig “o’u hystyried i gyd” yn adlewyrchu “bywyd, pryderon...diddordebau a thraddodiadau diwylliannol” Cymru a rhannau eraill o’r DU.

Nid dadl newydd yw hon, ond mae’r Mesur yn ei gwneud yn ddyletswydd i’r rheolydd, yn wahanol i’r drefn yn y gorffennol, asesu’r materion hyn yn eang iawn. Gan y bydd yn rhaid gweithredu ar hyn cyn diwedd 2004 – fel y gellir defnyddio’r wybodaeth yn y ddadl ar adnewyddu Siarter Frenhinol y BBC – dyma fydd un o dasgau ymarferol cyntaf Ofcom. Er hynny, o gofio popeth y mae’n rhaid i’r rheolydd newydd ei gyflawni, mae’n annhebygol y bydd wedi cael amser digonol i lunio sail ymchwil ar gyfer llunio penderfyniadau mor sylfaenol. Nid yw’n rhy gynnar felly i sefydliadau yng Nghymru baratoi eu hymateb i’r cwestiynau sylfaenol hyn.

Dylai'r ymchwil ganlynol fod yn fan cychwyn :

- Archwilio'r modd y gweithredir y sianelau gwasanaeth cyhoeddus, a'r berthynas rhyngddynt, yng Nghymru'n benodol, fel rhan o arolwg darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws y ddwy iaith
- Mapio'r ddarpariaeth bresennol o raglennu a chynhyrchu yn Gymraeg (oriau, cyfran a buddsoddiad) ar y sianelau gwasanaeth cyhoeddus yn y ddwy iaith, a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau lle teimlir bod yna ddiffygion
- Comisiynu ymchwil cynulleidfaoedd ar berfformiad sianelau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r bylchau o ran bodloni'r gynulleidfa mewn perthynas â gwasanaethau a rhaglenni

Mae **Cymal 332** yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol (ar ran yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon - DCMS) i gynnal arolwg o berfformiad S4C wrth gyflawni ei chylch gwaith i'r cyhoedd, mewn perthynas â gwasanaeth analog S4C ac S4C Digidol. Er hynny, mae adran (2) o'r cymal yn nodi na ddylid cynnal yr arolwg yn gynharach na phum mlynedd ar ôl pasio'r Ddeddf, ac y dylai'r arolwg fod yn berthnasol i'r cyfnod hwnnw o bum mlynedd yn unig. Byddai arolygon bob pum mlynedd wedi hynny. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol (DCMS) ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal ag Awdurdod S4C fel rhan o'r arolygon hyn.

Mae tri arolwg pwysig a fydd yn bwysig i ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru: yr arolwg o holl ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus y bydd yn rhaid i Ofcom ei gynnal yn ei flwyddyn gyntaf, yr arolwg o Siarter Frenhinol y BBC a fydd yn cael ei gychwyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn 2006 a'r arolwg ar wahân o berfformiad S4C a gynhelir ddim cynharach na 5 mlynedd ar ôl pasio'r Mesur. Mae'n bwysig bod y berthynas rhwng S4C a'r BBC yn cael ei hystyried yn ofalus yn yr holl arolygon hyn. Mae holl bobl Cymru, waeth beth fo'u gallu ieithyddol neu eu dewis iaith yn derbyn gwasanaethau yn y ddwy iaith. Yn ogystal â hyn, mae'r BBC yn brif gyfrannwr i wasanaeth cyhoeddus S4C. Bydd yr arolwg o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn darparu cyfle cynnar i ystyried yn fanwl y cyfyngiadau cyllidol presennol ar S4C a'i hariannu yn y dyfodol.

#### **4.4 Datganiadau polisi rhaglenni a hunan-reoleiddio**

Mae'r Mesur yn ffurfioli'r arfer cynyddol ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o gyhoeddi Datganiadau Polisi Rhaglenni. Yn achos ITV, mae'n ofynnol yn ôl y Mesur bod Datganiad Polisi Rhaglenni'n cael ei gyhoeddi ar gyfer pob ardal drwyddedu ranbarthol, gan ein hatgoffa, er bod y Mesur yn caniatáu cadarnhad pellach o ran perchnogaeth, nid yw'n caniatáu cadarnhad ynglŷn â thrwyddedau. Er hynny, mae'n codi'r cwestiwn ynghylch yr angen i barhau'r cyswllt rhwng Cymru a Gorllewin Lloegr dan un drwydded. Yn wreiddiol gwelwyd bod angen am hyn wrth ymateb i'r gallu i dderbyn amledd ac fel arf masnachol i ardal ddarlledu Cymru a oedd bryd hynny'n wynebu amheuan ynghylch ei hyfywedd.

Yng nghyd-destun Datganiadau Polisi Rhaglenni, dylid cofio hefyd bod dwy ryddfaint ITV eraill yn darlledu i Gymru – gwasanaeth Carlton o Ganolbarth Lloegr a gwasanaeth Granada o ogledd-orllewin Lloegr. O'r ddau hyn, gwasanaeth Granada sy'n ymestyn i ogledd Cymru yw'r mwyaf allweddol o ddigon. Gan fod Granada'n ystyried gogledd Cymru fel rhan o'i hardal graidd, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ba oblygiadau o ran rhaglenni a allai ddeillio o hynny, yn arbennig ym maes newyddion. Mae hyn yn berthnasol iawn i'r ddadl ynghylch 'prinder ffocws democrataidd' a godwyd mewn perthynas â darlledu i Gymru, sef bod cymharol ychydig neu ddim newyddion am lywodraethu Cymru.

Mae'n ofynnol i'r BBC fel corfforaeth gyfan, fel rhan o Gytundeb y BBC, gyhoeddi ei Ddatganiad Polisi Rhaglenni ei hun. Er nad yw'n ofynnol yn ôl y Cytundeb i'r BBC baratoi Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer pob gwlad a rhanbarth, mae ei ddatganiadau, er hynny, wedi cynnwys rhannau sy'n berthnasol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r broses o lunio Datganiadau Polisi Rhaglenni yn codi'r mater o hunan-reoleiddio neu gyd-reoleiddio darlledwyr. O dan y Siarter ar gyfer Darlledu yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau, a gytunwyd gan gwmnïau ITC ac ITV yn 2002, bydd gan pob ardal drwyddedu ei chyfarwyddwr rheoli ei hun sy'n byw yn y rhanbarth. Yn achos HTV gallai hyn olygu Caerdydd neu Fryste. Rydym o'r farn y dylai Ofcom ystyried a yw natur arbenig y darlledu'n golygu ei bod yn anorffod y dylid lleoli cyfarwyddwr rheoli yng Nghaerdydd. Bydd pob bwrdd ardal drwydded yn cynnwys o leiaf un cyfarwyddwr anweithredol, ond gyda dau neu fwy ar gyfer Scottish, Grampian, HTV ac UTV. Yn ogystal â hyn, bydd grŵp cynghori rhanbarthol ym mhob ardal drwyddedu. Mae HTV wedi sefydlu dau gyngor, un ar gyfer Cymru ac un ar gyfer Gorllewin Lloegr.

Bydd yn ofynnol sicrhau ymrwymiad didwyll i'r broses ar ran y darlledwyr a bydd angen i'r rheolydd a'r cyhoedd edrych yn drylwyr ar hyn er mwyn sicrhau bod hunan-reoleiddio yn gredadwy. Yng nghyswllt y BBC codwyd amheuan sylweddol ynglŷn â'r pellter rhwng y Bwrdd y Llywodraethwyr a'r rheolwyr. Mae perygl pellach y gall byrddau cynghori bach nad ydynt yn cael eu talu, gael eu cipio gan gorfforaethau. Nid yw bob amser yn hawdd sicrhau'r cydbwysedd ymhlyg yn y cysyniad o 'gyfaill beirniadol'.

## 4.5 Derbyniad i bawb?

### Cyfyngau darlledu

Os yw Cymru wedi bod yn or-ddibynnol ar ddarpariaeth ddarlledu'r sector cyhoeddus am ei gwasanaethau cenedlaethol o ran teledu a radio yn y ddwy iaith, mae'r un mor ddibynnol ar yr egwyddor ynglŷn â gwasanaeth cyhoeddus o ran darparu'r gwasanaethau hynny'n dechnegol. Heb ymrwymiad cryf parhaus tuag at yr egwyddor o dderbyniad cyffredinol, mae'n debygol y bydd dyfodiad technolegau newydd yn cynyddu'r anfantais cymharol y mae Cymru wedi'i dioddef yn draddodiadol. Nodwyd yn gynharach mai yng Nghymru y mae'r nifer mwyaf o drosglwyddyddion yn y DU. Mae wedi cymryd sawl degawd i ymestyn darlledu teledu UHF a radio FM ar draws y wlad i gyd. Eto, o ran teledu, mae canran y boblogaeth sy'n derbyn yr holl wasanaethau teledu yn is yng Nghymru nac yn unrhyw un o bedair gwlad y DU. Yn ogystal â hyn mae canran sylweddol o'r darlledu hwnnw o drosglwyddyddion sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ac nid ydynt yn darlledu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd a llywodraeth Cymru.

Nid oes unrhyw arwydd bod y sefyllfa'n newid er gwell gyda'r symudiad tuag at deledu digidol. Yn wir, mae rhai arwyddion yn awgrymu y bydd pethau'n gwaethygu. Ar hyn o bryd, allan o 207 o drosglwyddyddion teledu sydd yng Nghymru, dim ond naw sydd wedi'u trawsnewid yn ddigidol. Tra bod 75% o gartrefi yn y DU yn derbyn signalau digidol o'r ddaear, y ffigwr craidd yng Nghymru yw ychydig mwy na 40%. O'r rhain mae'r BBC yn amcangyfrif bod oddeutu 14% ohonynt yn derbyn signalau o Loegr, er nad yw'r ffigwrau hyn wedi'u gwirio. Rhaid i'r gwasanaeth Freeview DTT brofi ei apêl, ac eto nid yw ar gael hyd yn oed mewn nifer o gymoedd poblog de Cymru – mater o bryder cynyddol. Mae'r gwaith o ymestyn ceblau hefyd yn araf iawn (unwaith eto oherwydd cyfyngiadau topograffig). Mae Teledu Cebl ar gael yn bennaf yng nghanolfannau trefol de Cymru, tra bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi mai ychydig iawn o

ddiddordeb sydd mewn Teledu Cefl hyd yn oed yn y trefi mwyaf. Canlyniad hyn yw bod gwasanaethau lloeren digidol wedi cynyddu'n sylweddol a hynny ar y blaen i weddill y DU bron o'r cychwyn cyntaf, ac ar un cyfnod yn ddwbl y raddfa yng Nghanolbarth Lloegr.

Mae sefyllfa radio digidol (DAB) yn llai boddhaol fyth. Ar hyn o bryd, mae'r amblethau cenedlaethol yn y DU, ar gyfer y BBC a'r radio annibynnol, yn cael eu darlledu o dri throsglwyddydd yn unig yng Nghymru – Moel y Parc yn y gogledd-ddwyrain, y Wenfo ger Caerdydd a Kilvey Hill yn Abertawe. Er hynny, mae amblethau sy'n darparu gwasanaethau mwy lleol ar gyfer BBC a radio annibynnol (ar ambleth wedi'i rannu) wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i ardal arfordirol de-ddwyrain Cymru.

## Telathrebu

Ffurfiolwyd y cysyniad o Wasanaeth i Bawb o ran telathrebu gan Ddeddf Telathrebu 1984. Mae cyfarwyddbau diweddar yr UE wedi mynd â hyn ymhellach. Mae Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar hyn o bryd yn berthnasol i BT (ac i Kingston Communications yn Hull) ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau bod gwasanaethau ffôn sylfaenol ar gael i bawb ar gais rhesymol ac am bris y gellir ei fforddio. Dan y Mesur newydd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwydiant a Masnach yn nodi pa gyfleusterau y dylid eu darparu dan Wasanaeth i Bawb. Bydd Ofcom yn dynodi pa weithredwyr fydd yn gorfod cyflenwi'r gwasanaethau hyn, gan gymryd camau priodol i orfodi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

Defnyddir Gwasanaeth Cyffredinol mewn Telathrebu – yn amodol ar gost resymol - i sicrhau bod cyfleusterau sydd eisoes ar gael i'r mwyafrif, ar gael i bawb, a sydd eu hangen er mwyn cyfranogiad cymdeithasol ac economaidd llawn. Gydag amser, bydd mathau newydd o delathrebu'n bodloni'r meini prawf hyn. Er enghraifft, mae'n cael ei gydnabod y dylai'r Gwasanaeth i Bawb gynnwys llinell a all “roi mynediad gweithredol i'r Rhynggrwyd”, ac mae OfTEL ar hyn o bryd yn ymgynghori ynghylch sut y dylid gweithredu hyn. Mae hyn yn hynod bwysig i Gymru, gan mai trwy ddeialu'n unig y mae'n bosibl i fwy na hanner y boblogaeth gael mynediad i'r Rhynggrwyd. Ar y llaw arall, mae natur y rhwydwaith yng Nghymru'n ei gwneud yn gymharol anodd i Delecom Prydain weithredu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae OFTEL yn disgwyl i Delecom Prydain gwrdd â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol heb gyllid arbennig, gan ddadlau bod y manteision o gael eich gweld fel un sy'n darparu Gwasanaeth i Bawb yn gymharol â'r costau. Mae'n bosibl, y bydd cyfnod pan na fydd hyn yn wir, wrth i gostau gynyddu ac wrth i gyfran BT o'r farchnad ostwng. Yn yr achos hynny byddai'n rhaid sefydlu Cronfa Gwasanaeth i Bawb, gyda chyfraniadau gan yr holl weithredwyr er mwyn cwrdd â chostau Gwasanaeth Cyffredinol. Byddai sefydlu Cronfa o'r fath yn gynnar o fantais i Gymru, gan y byddai'n darparu ffynhonnell o gefnogaeth ar gyfer gwelliannau rhwydwaith, yn arbennig yn y Gymru wledig.

Mae'r amgylchiadau hyn yn gosod her sylweddol i Ofcom yng Nghymru – sef, sicrhau bod defnyddwyr yng Nghymru â mynediad i'r un amrywiaeth a dewis o wasanaethau digidol â gweddill y DU. Mae achos cryf dros gynnal archwiliad holistig o'r materion darparu hyn wrth iddynt effeithio ar Gymru gyda'r nod o adnabod y ffyrdd cyflymaf i fanteisio i'r eithaf ar ddarlledu digidol a mynediad i fand eang. Yn sicr, bydd yn rhaid i Ofcom wynebu'r cwestiynau hyn:

- 1 Sut gellir gweithredu trefniadaeth ac ariannu ar gyfer lledaeniad graddol teledu a radio digidol fel nad yw o anfantais i'r cyhoedd sy'n gwylio ac yn gwrandao yng Nghymru, o'i gymharu â'r boblogaeth yng ngweddill y DU, a heb gosbi darlledu a pharatoi rhaglenni brodorol?

- 2 Os yw darlledu teledu digidol daearol yn brin o nod lefelau darlledu analog hyd y gellir rhagweld, a yw'n dderbyniol bod rhannau helaeth o Gymru'n dibynnu'n hollol ar fonopoli o ddarpariaeth loeren?
- 3 Pan fydd y Llywodraeth yn gosod isafswm targed ar gyfer darlledu digidol, fel rhagflaenydd i ddiddymu darlledu analog, a fydd yr isafswm hwnnw'n cael ei fynegi'n unig fel canran o boblogaeth y DU? Os felly, pa ddarpariaeth a fydd yn cael ei gwneud ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn cyrraedd yr isafswm hwnnw?
- 4 Gan y bydd y gwaith o ehangu DTT yn llawn efallai'n ddibynnol ar ryddhau rhai amleddau analog, pa gamau a gymerir i ragweld holl ofynion cymuned genedlaethol fel Cymru cyn i'r sbectrw m gael ei ddynodi ar gyfer dibenion eraill?
- 5 A fydd cynllunio amledd ar gyfer DTT yng Nghymru yn ceisio lleihau'r nifer o bobl yng Nghymru sy'n methu â derbyn signalau teledu o wasanaethau Cymreig, hyd yn oed os yw hyn yn golygu darlledu gwasanaethau Cymreig o rai trosglwyddyddion a leolir yn Lloegr?
- 6 A yw'n dderbyniol na ddylai gwasanaethau DAB ar gyfer Cymru fod ar gael ar yr un pryd â rhwydweithiau y BBC a radio digidol Annibynnol y DU?
- 7 A yw'n dderbyniol y dylai lledaeniad graddol gwasanaethau DAB ar gyfer Cymru (ILR, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru) gael ei reoli'n gyfangwbl drwy allu gweithredwyr radio masnachol i gyllido'r system ddarlledu, gyda'r canlyniad y cyfyngir gwasanaethau DAB ar gyfer Cymru yn bennaf i ardal arfordir de Cymru? A ddylid ceisio sicrhau dull technegol neu drefniant ariannu newydd a gwahanol rhwng y BBC ac Ofcom (fel olynydd i'r Awdurdod Radio)?
- 8 A fyddai unrhyw fanteision o edrych ar ddarparu cyfryngau darlledu a thelathrebu ar y cyd fel un broblem?

#### **4.6 Canllawiau Rhaglenni Electronig (EPG)**

Mae Canllawiau Rhaglenni Electronig (EPG) erbyn hyn yn becynnau cwbl angenrheidiol i'r sawl sy'n gwylio teledu aml-sianel. Maent yn amrywio o ran pa mor soffistigedig ydynt ac yn y ffordd y maent yn rhestru ac yn grwpio gwasanaethau. Gallant ddylanwadu ar batrymau gwylio mewn ffyrdd cynnil. Mae'r Mesur Cyfathrebu'n rhoi pwerau sylweddol i Ofcom reoleiddio'r modd y maent yn gweithredu. Yn ôl Cymal 304, mae'n ofynnol i Ofcom baratoi Cod Ymarfer sy'n gorfod cynnwys "amlygrwydd dyledus ym marn Ofcom...i restru a hyrwyddo'r rhaglenni a gynhwysir yn y sianelau gwasanaeth cyhoeddus".

Mae'r egwyddor o "amlygrwydd dyledus" yn allweddol bwysig i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyfredinol, ond yn arbennig ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol o fewn y DU. O ystyried y buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer Cymru a wneir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n derbyn cyllid cyhoeddus a chyllid trwy gyfrwng hysbysebion, a'r raddfa y gwerthfawrogir hwy gan gynulleidfaoedd, mae'n bwysig na ddylid caniatáu i'r rhai sy'n rheoli'r EPGau osod y gwasanaethau hyn ar waelod eu rhestrau.

Hyd yn hyn, mae gwasanaethau BBC ac ITV ar gyfer Cymru wedi cymharu'n eithaf ffafriol, ond ar wasanaeth cebl ntl nid yw S4C i'w gael ar 104 ond yn hytrach ar 752, gyda S4C2 – sy'n cynnwys darlledu byw o'r Cynulliad Cenedlaethol - ar 853, wedi'i lleoli rhwng gwasanaethau heb ddim cysylltiad o gwbl yn hytrach na'u grwpio'n fwy rhesymol gyda sianel y Senedd.

Ar Fawrth 12, 2003 cyhoeddodd y BBC ei benderfyniad i ddarlledu ei holl wasanaethau, gan gynnwys amrywiadau rhanbarthol, heb eu trosi, fel y gellir eu derbyn ym mhob rhan o'r DU. Tra bod y penderfyniad yn ymddangos fel pe bai'n cael ei ddylanwadu'n rhannol gan ddadl rhwng y BBC a Sky ynghylch pris mynediad, nid yw'n glir eto a fydd newidiadau i'r gwasanaethau ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau o Loegr, o ran statws a'u canfod ar EPG Sky.

Mae'r cyhoeddiad gan y BBC ynglŷn â'r newid hwn yn nodi: "Gyda chymorth Sky, gallwn sicrhau y gall gwylwyr ddewis cael y gwasanaeth rhanbarthol y maent yn ei ddyuno drwy slotiau 101 a 102 ar yr EPG – lle mae BBC1 a BBC2 yn awr. Er mwyn manteisio ar hyn byddai angen uwchraddio syml iawn o ran meddalwedd er mwyn i wylwyr lloeren presennol – neu newydd – *gael dewis* y gwasanaeth rhanbarthol y maent am ei gael." (Ein pwyslais italig ni.) Er hynny, mae'n cyfaddef bod llwyddiant yn sgîl y newidiadau hyn yn "dibynnu'n rhannol ar y polisi a'r fframwaith deddfwriaethol" a dywed y bydd yn cefnogi gwelliant i "greu mwy o sicrwydd ynghylch rheolau 'amlygedd dilys' i sicrhau bod amrywiadau cenedlaethol a rhanbarthol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn hwylus i wylwyr".

Mae'n hollbwysig bod amrywiadau rhanbarthol a chenedlaethol o ran gwasanaethau yn y DU, lle maent yn bodoli, yn cael eu hystyried fel y gwasanaethau sylfaenol, rhagosodedig ar gyfer y rhanbarth neu'r wlad honno. Ni ddylid gorfodi gwylwyr i chwilio am raglenni sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u cymunedau ym mherfeddion yr EPG. Tra gallai'r canlyniad ddibynnu i ryw raddau ar bwerau Ofcom ynglŷn â phrisiau mynediad, mae'n bwysig bod pwerau penodol ynghylch EPGau yn cael eu rhoi i Ofcom a'i fod yn gweithredu arnynt, fel y gellir rhoi terfyn ar y materion hyn.

#### **4.7 ITV a chadarnhau perchnogaeth**

Mae'r broses o gadarnhau perchnogaeth o fewn system ITV wedi bod yn un hir iawn. Mae'n cymryd ei chamau olaf, o leiaf o ran perchnogaeth ddomestig. Os na fydd unrhyw wrthwynebu gan yr awdurdodau sy'n cystadlu yn ei herbyn, ac os bydd y gwaith o ddod â Carlton a Granada at ei gilydd yn parhau, bydd y rhan fwyaf o'r system, yn cynnwys HTV, dan un berchnogaeth. Bydd HTV wedi cael pum perchennog mewn chwe blynedd. Wrth gwrs, nid oes sicrwydd y bydd y cam olaf yn y symudiad i gyfuno, yn golygu y bydd cyfnod o sefydlogrwydd i'r system, o gofio y bydd y Mesur yn caniatáu perchnogaeth o dramor. Ond rhaid i Ofcom sicrhau y bydd mantais wirioneddol i'r cyhoedd o'r cyfuno hwn. Dylid monitro'n ofalus effaith unrhyw newidiadau i berchnogaeth Sianel 3 a Sianel 5 ar Gymru.

Bydd ITV wrth gwrs, yn dymuno buddsoddi mwy yn nhrefn rhaglenni ei rhwydwaith er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, ond dylai Ofcom sicrhau hefyd nad yw'r bwlech rhwng cyllido rhaglenni ar lefel rhwydwaith a rhanbarthol yn parhau i ymestyn. Rhaid i raglenni rhanbarth hefyd fod yn gystadleuol o ran ansawdd, nid yn unig gyda rhaglenni rhanbarthol y BBC ond gyda'r cynnyrch rhwydweithiol ar yr un sianel. Mae'n bosibl y bydd Ofcom yn dymuno ystyried a ddylai'r cytundebau ynghylch cynnyrch rhanbarthol, y cytunwyd arnynt gyda chwmnïau ITV llynedd ynghanol cyfnod o gyny o ran hysbysebu, gael eu harolygu pan fydd amgylchiadau economaidd wedi gwella.



## 4.8 Cynnyrch rhwydweithiol o Gymru

Rydym eisoes wedi cyfeirio at y ffordd y mae'r Mesur, wrth ddiffinio gwasanaeth cyhoeddus, yn ei gwneud yn ofynnol i sianelau gwasanaeth cyhoeddus, o'u hystyried i gyd, "sichrau *nifer ddigonol* o raglenni sy'n adlewyrchu bywyd a phryderon gwahanol gymunedau a diddordebau a thraddodiadau diwylliannol o fewn y Deyrnas Unedig..." a'u bod yn cynnwys "yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom yn *amrywiaeth a chyfran briodol* o raglenni a wnaed y tu allan i ardal yr M25." (Ein pwyslais italig ni.)

Tra bod hyn yn rhoi lle i sawl barn oddrychol, mae eisoes rai meincnodau yn eu lle fel canllawiau i Ofcom. Cofnodwyd mewn adroddiad ITC yn 2002 bod oddeutu traean o raglenni'r BBC a Sianel 4 yn dod o'r tu allan i'r M25. Haerwyd hefyd bod 56% o gynnyrch ITV yn dod o'r tu allan i'r M25. Roedd hon yn gymhariaeth gamarweiniol dros ben gan fod y ffigwr o 56% yn cynnwys gwasanaeth holl raglenni rhanbarthol ITV, er nad oedd yn gynnwysedig yn ffigwr y BBC. Nid oes gan Sianel 4, wrth gwrs, gynnyrch rhanbarthol o unrhyw fath.

Mae yna hefyd faterion sy'n benodol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o'r cynnyrch o'r tu allan i'r M25 yn dod o ganolfannau cynhyrchu sylweddol yn Lloegr – yn arbennig Bryste, Birmingham, Manceinion a Leeds. Mae cyfanswm y cyfraniad i rwydweithiau'r DU o'r tu allan i Loegr wedi bod yn sylweddol is nag y byddai rhywun wedi'i ddisgwyl ar sail meini prawf cyffredin. Mae'n bwysig bod data rheolaidd ar gael, fel bod y patrymau cynhyrchu'n gwbl dryloyw. Yn y cyd-destun hwn dylem bwysleisio yn ein barn ni nad yw bodolaeth S4C yn lleihau unrhyw rwymedigaeth sydd gan Sianel 4 tuag at Gymru.

Y cwestiwn a fydd yn wynebu Ofcom yw a fydd y meincnodau hyn yn ddigonol ac a ddylid ehangu ar eu defnydd. Cynigir hefyd y dylid gosod targed ar gyfer cynhyrchu o'r tu allan i ardal yr M25 ar Sianel 5. Yn ein barn ni, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai targed o'r fath ar gyfer Sianel 5 fod yn llai nac ar gyfer y sianelau gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Mae'r materion hyn o bwysigrwydd allweddol i Gymru, am resymau economaidd a diwylliannol. Rhaid i ni sichrau bod ein sector cynhyrchu rhaglenni'n chwarae rhan mewn paratoi rhaglenni ar y lefel uchaf, o ran ansawdd a gwerth ariannol. Dim ond trwy wneud hyn y gall cynhyrchwyr yng Nghymru gyfrannu hyd yr eithaf i farchnadoedd y DU a marchnadoedd rhyngwladol yn ogystal ac economi Cymru.

Y cwestiynau pwysig i Gymru ac Ofcom, yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon, fyddai:

- 1 Pa gyfran o gynnyrch *rhwydwaith* ITV sy'n dod o'r tu allan i ardal yr M25, ar ôl eithrio cynnyrch rhanbarthol?
- 2 Pa gyfran o wasanaeth rhwydweithiol y BBC, Sianel 3, Sianel 4 a Sianel 5 a ddaw gan gynhyrchwyr y DU y tu allan i Loegr?
- 3 Ar ba lefel y dylid gosod y targed ar gyfer pob sianel gwasanaeth cyhoeddus neu sefydliad? Oni ddylid gosod y targedau yn nhermau gwerth, yn ogystal ag oriau, i gyfateb i'r manylion ynglŷn â chwotâu annibynnol?
- 4 Oni ddylai fod yn ofynnol i bob Sianel adrodd yn fanwl ar gynhyrchu y tu allan i'r M25, gan fanylu ynghylch beth sydd wedi dod o ba ranbarth a pha wlad, wedi'i ddiffinio yn ôl oriau a gwerth?

- 5 Beth mwy sydd angen ei wneud i sicrhau bod y sector cynhyrchu yng Nghymru yn gwbl alluog i fanteisio ar y cyfleon hyn ?

#### 4.9 Cynhyrchu annibynnol

Er mwyn cyflawni'r potensial sydd ymhlyg yn narpariaethau'r Mesur ar gyfer cynhyrchu rhwydweithiol o'r gwledydd a'r rhanbarthau, bydd yn ofynnol cael sector cynhyrchu rhaglenni annibynnol iach ac egniol yng Nghymru. Mae'r sector wedi manteisio yng Nghymru ar fodolaeth gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol S4C, a'r ffaith nad yw S4C, gyda rhai eithriadau, ynddo'i hun yn gwmni cynhyrchu. Er hyn, rhaid dweud, yn yr amgylchiadau yma, nad yw cynhyrchwyr Cymreig – sydd yn naturiol yn ymwneud â chynhyrchu yn y ddwy iaith yng Nghymru – wedi torri drwodd i'r marchnadoedd y byddai rhywun wedi'i ddisgwyl. Wrth gwrs mae rhai eithriadau i hyn – y brif enghraifft yw'r animeiddio dan ofal S4C – ond mae'r gosodiad yn wir ar y cyfan. Mae angen i gynhyrchwyr yng Nghymru, yn ogystal ag asiantaethau datblygu, ystyried ar frys pa gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd i gryfhau gallu'r sector i fanteisio'n llawn ar unrhyw dargedau cynhyrchu y tu allan i'r canolfannau dinesig.

Mae'r Mesur yn cyflwyno cwtotâu cynhyrchu annibynnol ar gyfer S4C am y tro cyntaf. Er hynny, nid yw'r un lefel cwota o 25% a osodir gan y Mesur ar holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cymryd ystyriaeth o'r ffaith bod cynhyrchwyr annibynnol yn ddiweddar wedi cyfrannu dim llai na 60% o wasanaeth analog S4C. Cododd hyn i 80% bron yn dilyn lansio gwasanaeth digidol S4C. Mae anghysondeb yma y dylid rhoi sylw iddo yn ystod taith y Mesur drwy'r Senedd.

Mae'r materion ar gyfer Cymru'n codi o'r angen i gyflawni'r canlynol:

- cwblhau'r archwiliad o'r farchnad a ddechreuwyd drwy Arolwg Cyflenwi Rhaglenni ITC
- sefydlu amodau masnachu rhwng darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol sy'n caniatáu i gynhyrchwyr annibynnol ddatblygu sylfaen ariannol briodol
- ystyried unrhyw faterion o ran cystadleuaeth sy'n berthnasol i'r sector cynhyrchu yng Nghymru
- sicrhau bod yr amodau masnachu hynny'n berthnasol nid yn unig i gynhyrchu rhwydweithiol sydd â chostau uwch yn y DU, ond hefyd i wasanaeth rhanbarthol ag adnoddau mwy rhesymol
- sicrhau bod y Codau Ymarfer newydd arfaethedig yn sefydlu arfer cyson ar draws yr holl ddarlledwyr
- mapio'r raddfa bresennol o ran cyflenwi rhaglenni o Gymru i'r holl rwydweithiau teledu, gan gynnwys sianeli nad ydynt yn sianelau darlledu sector cyhoeddus
- ystyried a fyddai cadarnhau statws y sector annibynnol yng Nghymru yn ddymunol
- ystyried a ddylid rhoi mwy o anogaeth i fentrau ar y cyd rhwng cynhyrchwyr annibynnol Cymreig a chwmnïau cynhyrchu annibynnol mawr y tu allan i Gymru.

## 4.10 Datblygu radio

Nid yw radio wedi derbyn y sylw dyledus o gofio mor boblogaidd ydyw. Nid yn unig y mae cyfanswm nifer y gorsafoedd radio yn y DU wedi codi'n sylweddol yn ystod y degawd olaf o ran ffurf analog ac yn fwy diweddar ar ffurf ddigidol (DAB), mae cyfanswm oriau gwrandio wedi cynyddu 10% ers dechrau 1999. Yr hyn sy'n fwy o syndod fyth, yw bod y cyfanswm oriau ar nosweithiau'r wythnos – pan fo teledu'n denu'r cynulleidfaoedd mwyaf – wedi cynyddu o 12.4% yn yr un cyfnod. Mae'r duedd i wrando ar y radio mewn ffyrdd newydd wedi cyfrannu at hyn. Mae oddeutu 12% o oedolion yn gwrandio ar y radio drwy gyfrwng y Rhyngwyd, gyda 15% yn gwrandio drwy gyfrwng y teledu a 2% drwy gyfrwng y ffôn symudol.

Nid yw'r ddadl ynghylch datblygiad radio wedi cael y sylw dyledus yng Nghymru, lle nad yw'r twf mewn gorsafoedd radio annibynnol newydd, er yn sylweddol, wedi cyrraedd y lefelau sydd i'w canfod mewn rhannau o Loegr – yn bennaf ar sail economaidd mewn gwlad lle mae costau darlledu yn uchel a'r boblogaeth, mewn sawl rhan, yn denau.

Mae'r Mesur yn ceisio sicrhau bod radio annibynnol sy'n darlledu'n lleol yn cael ei gwarchod – mae'r elfen o ddarlledu'n lleol wedi bod o dan cryn bwysau dros y degawd olaf. Dylai Ofcom wneud popeth posib i sicrhau bod ysbryd y cymal hwnnw'n cael ei adlewyrchu ym mherfformiad yr holl orsafoedd radio yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, byddai'n werthfawr cynnal asesiad cynnar o berfformiad darlledwyr radio yn erbyn cynnwys darpariaethau lleol Cymal 304.

Ym maes radio yng Nghymru mae angen cadw dau fater allweddol mewn cof:

1. Yr angen i roi sylw i faterion darlledu – cyfeirir at hyn adran 4.5 uchod – er mwyn sicrhau nad yw datblygiad radio digidol yn colli tir mewn cymhariaeth â gweddill y DU ac nad yw'n gosod gorsafoedd cenedlaethol a lleol Cymru dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â rhwydweithiau radio'r DU sydd eisoes yn darlledu o'r prif fastiau.
2. Yr angen i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a grëwyd gan y Mesur ar gyfer datblygu Radio Mynediad. Mae'r Awdurdod Radio ar hyn o bryd yn cynnal 15 ymarfer peilot mewn Radio Mynediad o gwmpas y DU. Mae un ohonynt yng Nghymru – GTFM, partneriaeth rhwng Cymdeithas Trigolion Glyn Taf ym Mhontypridd a gorsaf radio myfyrwyr Prifysgol Morgannwg. Mae'r canlyniadau o'r ymarferion hyn wedi bod yn galonogol, i'r graddau bod y Llywodraeth wedi cadarnhau ei bwriad i gyflwyno Radio Mynediad fel haen radio newydd.

Math newydd o radio cymunedol yw hyn nad yw'n gwneud elw, sydd gan amlaf yn gweithredu dros ardal fach iawn (radiws o oddeutu pum cilomedr) ac a fyddai'n addas iawn i'r amodau yng Nghymru. Byddai o fantais i gyrff cymunedol trwy Gymru astudio'r potensial yn ofalus fel y gellir manteisio i'r eithaf arnynt. Byddai'n syniad da hefyd i'r Cynulliad edrych ar sut y gall yr haen radio yma fod o gymorth i'w gynllun Cymunedau'n Gyntaf.

## 4.11 Telathrebu

Mae'n cael ei gydnabod yn helaeth bod telathrebu band eang yn bwysig ar gyfer datblygu economaidd, addysg a gweithgareddau cymdeithasol o bob math. Mae'n bosibl i oddeutu 40% o gartrefi a busnesau yng Nghymru dderbyn band eang trwy dechnoleg ADSL a modemaau cebl. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 70%. O gydnabod y brys o roi sylw i'r bwlch hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio rhaglen Band Eang Cymru, a fydd yn gwario

£115M ar raglen gytbwys o fesurau symbylu galw am y gwasanaeth a chyflenwi'r gwasanaeth gyda'r nod o ddarparu band eang i bob cwr o Gymru. Mae lefelau o gefnogaeth o'r fath yn y sector cyhoeddus yn peri bod y gwasanaeth band eang yng Nghymru'n wahanol iawn i ardaloedd eraill o'r DU, a bydd yn bwysig sicrhau bod Ofcom yn cymryd sylw o hyn. Mae gan systemau di-wifr ran bwysig i'w chwarae wrth ehangu band eang yng Nghymru, sy'n golygu bod y trefniadau trwyddedu ar gyfer sbectrwm radio addas yn allweddol. Gwnaed y penderfyniad diweddar ynglŷn â'r sbectrwm trwyddedu 3.4GHz - i rannu Cymru yn bedair rhan, gyda phob rhan wedi'i chysylltu ag ardal fwy o faint a mwy llewyrchus mewn rhannau o Loegr – yn groes i gyngor o Gymru, sy'n profi mor bwysig yw bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n briodol mewn ceisiadau trwyddedu yn y dyfodol.

Yng Nghymru mae'r derbyniad a geir gan yr ail genhedlaeth o deffoni symudol yn waeth nac yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill y DU. Ac eithrio'r prif ardaloedd trefol a'r prif briffyrdd, mae'r derbyniad yn anghyson iawn, ac yn gynyddol mae oblygiadau economaidd a chymdeithasol gwirioneddol i hyn. Mae nifer o gyrff wedi datblygu diwylliant sy'n dibynnu ar ddefnyddio'r ffôn symudol: busnesau bach, yn arbennig masnachwyr ar eu pennau eu hunain, sy'n dibynnu ar ffonau symudol ar gyfer cysylltu â darpar gwsmeriaid; mae cyrff gwirfoddol yn defnyddio ffonau symudol i gydlynu eu gweithgareddau. Er mwyn gwella darlledu ffôn symudol bydd yn ofynnol dod o hyd i ddulliau gwahanol iawn i'r rhai sy'n addas ar gyfer ardaloedd trefol, a bydd angen ymgais gydlynol gan asiantaethau yng Nghymru, Ofcom a chyrrff eraill.

Mae'n bosibl y bydd gan yr hawl i symud rhwng rhwydweithiau, na chaniateir ar hyn o bryd, rôl i'w chwarae, yn ogystal â chefnogaeth gan gyllid cyhoeddus. Efallai y bydd angen rhoi sylw hefyd i broblemau ynghylch cael caniatâd cynllunio ar gyfer mastiau. I bob pwrpas mae gan BT fonopoli dros y rhan fwyaf o Gymru. Mae'r monopoli hwn yn ymestyn dros y rhan fwyaf o'r rhwydwaith lleol yn ogystal â'r rhwydwaith ehangach; dim ond o fewn rhyddfrait ntl yn ne Cymru y ceir cystadleuaeth. Mae'r lefelau isel o weithgaredd economaidd (oherwydd poblogaeth denau a thlodi cymharol) yn golygu nad yw Cymru'n atyniadol i gwmnïau newydd a allai fuddsoddi mewn rhwydweithiau telathrebu newydd.

Yn y dyfodol agos bydd BT yn aros mewn safle amlwg o fewn isadeiledd telathrebu yn y Gymru wledig. Ar y lefel gyfanwerthol, mae'n bosibl y bydd angen pwyso'r galw arferol am fwy o gystadleuaeth – sy'n eglur ym mhwrpasau Ofcom – yn erbyn yr angen brys i ymestyn gwasanaethau ehangach mewn ardaloedd nad ydynt fel rheol yn hyfyw. Ar y llaw arall, bydd cystadleuaeth yn datblygu ar y lefel manwerthu.

#### **4.12 Newyddion, papurau newydd a pherchnogaeth**

Mewn adroddiad diweddar ar gyfer yr ITC ar ddarpariaeth a derbyn newyddion yn y DU, daeth yr Athro Ian Hargreaves, sydd erbyn hyn yn aelod o Fwrdd Ofcom, i'r casgliad hwn – mewn cyfnod o “newyddion cwmpasol” lle'r ydym yn ddiweddar wedi gweld darlledu byw o ferw'r rhyfel yn Irac, “mae pobl yn teimlo nad ydynt yn derbyn llawer o wybodaeth am eu hardaloedd.” Ychwanegodd, “Gallai hyn awgrymu argyfwng posib o ran isadeileddau newyddion lleol ac efallai ei fod yn mynd peth o'r ffordd at egluro pam fod cynifer o bobl yn ei chael yn anodd ymwneud â gwleidyddiaeth neu'n teimlo fod gwleidyddiaeth yn ddiystyr, gan nad ydynt yn gallu gweld pa effaith a gaiff ar eu cymunedau eu hunain”.

Mae'r casgliad hwn yn arbennig o berthnasol i Gymru, lle mae gwasanaethau newyddion y BBC a HTV yn canolbwyntio ar y lefel Cymru'n genedlaethol, lle nad yw radio lleol annibynnol y tu allan i'r de poblog wedi'i ddatblygu'n sylweddol, a lle mae'r ffactorau cymdeithasol-daeryddol wedi cyfyngu ar ddatblygiad y cyfryngau print.

Byddem yn cefnogi'r argymhelliad yn ei adroddiad "y gellid annog Ofcom i ymgymryd ag astudiaeth gynnar o'r materion hyn, gyda golwg ar wneud argymhellion ar y rheolau sy'n berthnasol i gyfuno papurau newydd lleol, rôl radio mynediad mewn newyddion, strategaeth ar gyfer teledu lleol a chyfundrefn bosib ar gyfer gweithrediadau newyddion rhyngwyd y gwasanaeth cyhoeddus ar lefel leol."

Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y Mesur Cyfathrebu bellach yn ei gwneud yn bosibl cadarnhau perchnogaeth yng nghyd-destun radio a theledu, a pherchnogaeth ar draws-y-cyfyngau rhwng y maes darlledu a chyfyngau print. Er gwaethaf yr amodau economaidd yng Nghymru, ni chredwn y bydd y materion hyn a'r cyfyng-gyngor a ddaw yn eu sgîl yn cael eu hosgoi'n llwyr yng Nghymru.

#### **4.13 Llythrennedd cyfryngol**

Mae Cymal 10 yn gosod dyletswydd ar Ofcom i sicrhau gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r canlynol:

- Natur a nodweddion y deunydd a gludir ar gyfyngau electronig
- Y broses o ddethol a deunydd ar gyfer ei gyhoeddi
- Gwell ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r systemau sydd ar gael ar gyfer cael mynediad at ddeunydd electronig
- Gallu unigolion i reoli deunydd o'r fath a dderbynnir ganddynt
- Y defnydd o dechnolegau a systemau ar gyfer rheoleiddio mynediad i ddeunydd o'r fath

O ran dehongli'r dyletswydd hwn dylai Ofcom hefyd gadw'r canlynol mewn cof:

- agweddau dinasyddiaeth ynghylch llythrennedd cyfryngol
- yr angen am ddeunyddiau addysgol ychwanegol yn yr iaith Gymraeg
- gwahaniaethau cwricwlaidd yng Nghymru

#### **4.14 Ymchwil**

Bydd archwilio'r holl faterion uchod yn golygu gwaith ymchwil sylweddol. Wrth lunio'i rhaglen ymchwil rhaid i Ofcom sicrhau ei fod yn cael darlun clir nid yn unig o'r DU i gyd ond hefyd o'r gwledydd a'r rhanbarthau unigol. Er mwyn gwneud hyn bydd angen iddo sicrhau bod samplau ar gyfer ymchwil ledled y DU o faint digonol er mwyn adlewyrchu patrymau rhanbarthol. Bydd angen hefyd llunio rhaglenni ymchwil penodol ar gyfer Cymru. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn ganolog i waith swyddfa Ofcom yn Nghymru.

Wrth fynd i'r afael â'r dasg hon byddai o fantais i Ofcom pe gellid sefydlu'r lefel uchaf o gydweithio gyda'i fudd-ddeiliad yng Nghymru. Mae gan yr holl ddarlledwyr eu rhaglenni ymchwil a'u cyllidebau eu hunain, ac er y gall peth gwaith fod yn fasnachol sensitif, gellid rhannu llawer o'r gwaith, gan ehangu ar faint ac ystod yr ymchwil gan osgoi unrhyw ddyblygu a chostau diangen.

### **Grŵp Ofcom 27-3-2003**

Cyflwynwyd Adroddiad y Grŵp Ymgynghorol i'r Arglwydd Currie, Cadeirydd Ofcom, gan y Gweinidog ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ar 3-4-2003